Arolygiad dan Adran 10
Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996

Plascrug C.P. School
Plascrug Avenue, SY23 1HL

Rhif yr Ysgol: 6672361

Dyddiad yr Arolygiad: 22/05/06

gan

Robert Huw Jones
78144

Dyddiad Cyhoeddi: 19/07/06

Dan rif contract Estyn: 1121005

Diben Estyn yw gwella ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

* ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir neu a ddefnyddir gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
* ysgolion cynradd;
* ysgolion uwchradd;
* ysgolion arbennig;
* unedau cyfeirio disgyblion;
* ysgolion annibynnol;
* addysg bellach;
* dysgu oedolion yn y gymuned;
* gwasanaethau cymorth ieuenctid;
* AALlau;
* addysg a hyfforddiant athrawon;
* dysgu yn y gwaith;
* cwmnïau gyrfaoedd; ac
* elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

* yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
* yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau.

Cymerwyd pob gofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2005 Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. O dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl heb fod yn fwy na chost atgynhyrchu ar eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Plascrug C.P. School fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Plascrug C.P. School rhwng 22/05/06 a 25/05/06. Comisiynwyd yr arolygiad, gan dîm annibynnol o arolygwyr, a arweinwyd gan Robert Huw Jones. Comisiwynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol, ond a ariennir gan, Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae yna dri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, mae yna adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, nid oes adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, mae adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, mae adroddiadau ar yr holl bynciau hefyd.

Mae Estyn yn penderfynu ar y math o arolygiad a gaiff ysgol, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Caiff pob ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgolion newydd neu ysgolion wedi'u huno arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad safonol.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac yn y blaen. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13	B14
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18	18-19

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen

Cyd-destun 1

Crynodeb 3

Argymhellion 9

Safonau 10

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? 10

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant 13

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? 13

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? 16

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? 19

Arweinyddiaeth a rheolaeth 21

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? 21

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? 22

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? 23

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu 26

Saesneg 26
Mathemateg 27
Technoleg gwybodaeth 29
Hanes 30
Celf 31
Cerddoriaeth 33

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad 35

Atodiadau

1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol 36

2	Data a dangosyddion ysgol	37
3	Canlyniadau asesu’r Cwricwlwm Cenedlaethol	38
4	Sail dystiolaeth yr arolygiad	40
5	Cyfansoddiad a chyfrifoldebau’r tîm arolygu	41

Cyd-destun

Natur y darparwr

1. Lleolir Ysgol Gymunedol Plascrug yn nhref Aberystwyth ar arfordir Ceredigion. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion yn dod o`r dref ac mae`r ysgol yn gwasanaethu`r gymuned leol. Fodd bynnag, mae nifer o ddisgyblion yn teithio ymhellach, rhai mor bell â Machynlleth i`r gogledd a Chei Newydd i`r de. Penodwyd yr ysgol gan yr Awdurdod Addysg Leol (AAL) fel ysgol categori B sy`n golygu mai Saesneg yw`r prif gyfrwng dysgu a dysgir Cymraeg fel ail iaith.

2. Mae poblogaeth yr ysgol yn bennaf yn wyn (81.5%) gyda`r gweddill yn dod o gefndiroedd lleiafrifol ethnig amrywiol. Cynrychiolir cyfanswm o 35 gwlad a derbynnir cefnogaeth gan 49 o ddisgyblion sydd â`r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae tua chwarter o`r disgyblion yn byw mewn ardal sydd o dan anfantais tra bod y lleill yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd, o ardaloedd nad ydynt yn freintiedig nac yn ddifreintiedig i rai sy`n gymharol ffyniannus. Mae tua 21% â`r hawl i dderbyn prydau ysgol yn rhad, canran sydd yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod addysg leol (AAL) a`r cyfartaledd cenedlaethol.

3. Mae`r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 oed ac mae 362 (cyfartal â llawn amser) o ddisgyblion llawn amser. Fe`u dysgir mewn pymtheg dosbarth, sy`n cynnwys dosbarth Meithrin sy`n darparu ar gyfer 10 disgybl llawn amser ynghŷd â disgyblion rhan amser, 19 yn y bore a 15 bob prynhawn. Derbynnir rhwng 50 a 60 o ddisgyblion o`r newydd yn flynyddol ac o`r dosbarth Derbyn ymlaen fe`u dysgir mewn dau ddosbarth cyfochrog i bob grŵp blwyddyn. Mae un dosbarth ychwanegol yn bodoli am 0.5 o`r wythnos ar gyfer tynnu allan disgyblion sydd â`r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae`r disgyblion yma yn derbyn cefnogaeth o fewn dosbarthiadau hefyd. Mae 65 o`r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae gan wyth ohonynt ddatganiad o AAA. Mae trefniadau mynediad yr ysgol yn dilyn polisi`r AAL ac nid oes anffafriaeth yn erbyn plant ag AAA. Mae llai nag 1% o`r disgyblion yn dod o gartrefi lle mae`r Gymraeg yn iaith gyntaf.

4. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2000. Ers hynny, mae cynnydd o ryw 7% yn niferoedd y disgyblion. Ar hyn o bryd mae 20 o athrawon llawn amser yn yr ysgol, dau ohonynt yn rhannu swydd, ynghyd ag athro rhan amser 0.5 sy`n dysgu`r disgyblion sydd â`r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Yn ystod y flwyddyn ysgol gyfredol mae gan y pennaeth gyfrifoldeb am Ysgol Gynradd Cwmpadarn ac yn treulio o leiaf dau ddiwrnod yr wythnos yno. Felly, nid oes gan y dirprwy bennaeth unrhyw ymrwymiad dysgu ffurfiol am y flwyddyn gyfredol ond wrth i`r pennaeth ollwng ei gyfrifoldeb dros Ysgol Gynradd Cwmpadarn ym Medi 2006 mi fydd y dirprwy bennaeth yn ailgydio yn ei swydd blaenorol o fod yn athrawes i`r disgyblion sydd â`r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae athro llawn amser yn dysgu ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) y staff. Does gan y pennaeth, a phenodwyd ym Medi 2001, ddim cyfrifoldebau dysgu llawn amser. Cyflogir 12 cynorthwy-ydd cefnogi dysgu gan yr ysgol, 9 ohonynt yn llawn amser, sy`n cynnwys un weinyddes feithrin gymwysedig sy`n darparu cefnogaeth llawn amser ar gyfer disgybl â nam

clywedol, cynorthwy-ydd cefnogol ar gyfer disgyblion sydd â`r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a chynorthwy-ydd llawn amser dosbarth meithrin. Mae tair weinyddes feithrin ychwanegol yn darparu cefnogaeth rhan amser; un i ddisgyblion ag AAA a dwy yn y dosbarth Meithrin.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

5. Mae blaenoriaethau`r ysgol sy`n ymddangos fel targedau yn y Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) cyfredol yn cynnwys:
   - sefydlu system gadarn o hunan arfarnu ysgol;
   - ymgymryd ag ymarfer ail-fodelu staff;
   - gwella`r gefnogaeth ar gyfer disgyblion â`r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt;
   - datblygu dysgu annibynnol y disgyblion;
   - gwella`r lleoedd dysgu gan gynnwys darpariaeth ar gyfer parcio ac ailosod y pedwar dosbarth symudol;
   - datblygu medrau entrepeneuraidd ac eraill y disgyblion ar gyfer cefnogi datblygiad economaidd.

Crynodeb

6. Mae Ysgol Plascrug yn ysgol dda iawn. Mae`r berthynas ardderchog sy`n bodoli rhwng y staff a`r disgyblion yn cyfrannu`n sylweddol tuag at ansawdd bywyd yr ysgol a`r safonau cyflawniad uchel. Gwerthfawrogir pob unigolyn o fewn cymuned ofalgar lle mae pwysigrwydd cyfeillgarwch, goddefgarwch, cwrteisi a charedigrwydd o`r pwys mwyaf.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol		**Gradd arolygu**
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	Gradd 1
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	Gradd 1
3	Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	Gradd 2
4	Pa mor dda yw'r gofal,y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	Gradd 1
5	Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	Gradd 1
6	Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	Gradd 1
7	Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	Gradd 1

Graddau ar gyfer safonau mewn pynciau a arolygwyd

7. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	**Gradd 2**	**Gradd 3**	**Gradd 4**	**Gradd 5**
42%	55%	3%	0%	0%

8. Mae safonau disgyblion yn y gwersi a arsylwyd dipyn yn uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru gyfan erbyn 2007, hynny yw, 98% yn foddhaol (cydradd â Gradd 3) a 65% yn dda (cydradd â Gradd 2) neu`n well.

9. Mae safonau cyflawniad yn y pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

Pwnc	**CA1**	**CA2**
Saesneg	Gradd 1	Gradd 1
Mathemateg	Gradd 1	Gradd 1
Technoleg Gwybodaeth	Gradd 1	Gradd 1
Hanes	Gradd 1	Gradd 1

Cerddoriaeth	Gradd 1	Gradd 1
Celf	Gradd 1	Gradd 1

10. Mae safonau wedi codi mewn Saesneg, mathemateg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, hanes, celf a cherddoriaeth drwy`r ysgol ers yr arolygiad diwethaf.

11. Mewn asesiadau CC yn 2005, roedd canlyniadau CA1 (mewn asesiadau athrawon) yn uwch na`r cyfartaleddau AALl a Chymru gyfan mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd canran y disgyblion yn cyflawni o leiaf lefel 2 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na`r cyfartaleddau AALl a Chymru gyfan. Wrth gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru, gwelir fod y canlyniadau yn y 25% cyntaf (uchaf) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae canran y disgyblion sy`n cyflawni o leiaf lefel 2 yn y tri phwnc o fewn y 25% cyntaf. Yn CA2, roedd y canlyniadau (mewn asesiadau athrawon) yn uwch na chanlyniadau`r AALl a chyfartaleddau Cymru gyfan mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd canran y disgyblion yn cyflawni o leiaf lefel 4 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaleddau yr AALl a Chymru gyfan. Wrth gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru, mae`r canlyniadau yn y 25% cyntaf mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae canran y disgyblion sy`n cyflawni o leiaf lefel 4 yn y tri phwnc o fewn y 25% cyntaf. Does dim patrwm amlwg dros gyfnod mewn canlyniadau bechgyn a merched. Dros y dair blynedd ddiwethaf, mae`r ysgol wedi cyflawni ei holl dargedau.

12. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump oed yn briodol i`w hanghenion, a gwna`r disgyblion gynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

13. Gwna plant yn y dosbarth meithrin a derbyn gynnydd da o safbwynt eu medrau allweddol. Gwna disgyblion o`r ddau gyfnod allweddol gynnydd da iawn o safbwynt eu medrau allweddol o gyfathrebu, mathemateg a TGCh.

14. Mae gan fedrau dwyieithog y disgyblion nifer o nodweddion da sy`n gorbwyso diffygion. Dengys rhai, yn enwedig ar ôl mynychu cwrs ymdrochi, ddealltwriaeth resymol o`r iaith Gymraeg. Fodd bynnag, mae defnydd achlysurol o`r Gymraeg gan staff a disgyblion yn ystod y dydd yn anghyson ar draws yr ysgol.

15. Mae`r disgyblion, heb ystyried eu gallu, yn llwyddo pa beth bynnag eu cefndir ieithyddol, cymdeithasol neu ethnig. Mae`r disgyblion sydd ag AAA a`r dysgwyr sydd â`r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn cyflawni safonau da yn ôl eu hoedran a`u gallu.

16. Mae safonau ymddygiad y disgyblion yn uchel iawn ac yn adlewyrchu disgwyliadau`r ysgol. Mae`r disgyblion yn gwrtais dros ben ac yn ystyriol gan ddangos graddau rhagorol o hunan-ddisgyblaeth.

17. Cyfartaledd presenoldeb y disgyblion dros y tri tymor yw 93% sydd o dan yr hyn a ddisgwylir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae absenoldebau heb awdurdod yn brin iawn.

18. Gwna`r disgyblion gynnydd ardderchog yn eu medrau personol a chymdeithasol. Mae ganddynt werthoedd moesol da ac yn eu harddangos yn rheolaidd o ddydd i ddydd ym mywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn ystyriol, cyfeillgar ac yn gwrtais i`w gilydd ac wrth ymdrin â staff ac ymwelwyr a chanddynt ddealltwriaeth clir o dda a drwg. Maent yn cydweithio`n dda gyda`i gilydd mewn gwersi a gweithgareddau eraill.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

19. Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd y dysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
43%	43%	14%	0%	0%

20. Mae`r ganran o`r addysgu Gradd 1 a Gradd 2 yn uwch na`r ganran i Gymru gyfan. Mae`r ganran o addysgu Gradd 1 dipyn yn uwch na`r cyfartaledd cenedlaethol.

21. Mae polisïau dysgu`r ysgol wedi`u dogfennu dda ac wedi eu cynllunio i ddarparu`r addysg orau posibl er mwyn paratoi`r disgyblion ar gyfer bywyd a byd gwaith.

22. Mae ansawdd y berthynas rhwng y staff a`r plant yn dda iawn ac yn un o gryfderau`r ysgol; mae`n cyfrannu`n fawr tuag at ddisgwyliadau a safonau uchel o addysgu.

23. Cynllunia`r staff yn ofalus gan ymdrechu i sicrhau fod disgyblion yn cyrraedd eu llawn botensial, ac mewn rhai achosion yn well na`u disgwyliadau eu hun. Yn y nifer o wersi rhagorol a arsylwyd yn ystod yr arolygiad, mae`r nodweddion rhagorol yn cynnwys y ffordd mae athrawon yn ysgogi`r disgyblion, gan eu hannog i roi cynnig ar dasgau sydd â mwy o sialens iddynt, drwy drafodaethau a`r ddarpariaeth o weithgareddau ymarferol amrywiol. Defnyddiant amrywiaeth o dechnegau cwestiynu er mwyn datblygu medrau meddwl uwch ac effeithiol ac yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau addas, gan gynnwys adnoddau technoleg gwybodaeth, er mwyn cyfoethogi`r dysgu. Nodwedd nodedig o`r addysgu yw`r sylw a roddir i ddatblygiad y disgyblion o`u medrau meddwl a dysgu.

24. Fodd bynnag, ceir rhai diffygion ar brydiau e.e. lle mae na ormodedd o gyfarwyddiadau gan athrawon a dim digon o gyfleoedd i`r disgyblion i achub y blaen yn eu dysgu eu hunain.

25. Mae ansawdd yr asesu yn dda ac yn cwrdd â`r gofynion stadudol; cedwir cofnodion trwyadl a manwl o gynnydd disgyblion ar draws yr ysgol. Mae`r broses hon yn galluogi athrawon i adnabod cyrhaeddiadau a chyflawniadau`r disgyblion ynghŷd ag adnabod disgyblion sydd o bosib yn dangyflawni. Asesir plant ag AAA gan ddefnyddio profion safonedig sydd yn nodi cynnydd, a phrofion diagnostig sydd yn nodi dulliau i`w defnyddio er mwyn sicrhau cynllunio addas a digonol ar gyfer gwella`n ymhellach mewn amrywiaeth o fedrau dysgu a chymdeithasol.

26. Ceir dadansoddiad effeithiol o`r data a chesglir mewn profion amrywiol, gan ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio a darpariaeth ymhellach. Mewn rhai achosion, mae`r gwaith marcio yn arwynebol ac nid yw bob amser yn rhoi arweiniad digonol ar gyfer gwella yn y dyfodol.

27. Mae`r ysgol yn darparu ystod eang ac amrywiol o weithgareddau dysgu i`r disgyblion, sy`n eu herio i gyflawni rhagoriaeth. Gwneir hyn drwy gynnig cwricwlwm eang a chytbwys, sy`n cwrdd â gofynion stadudol gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (AbaCH) ac addysg grefyddol. Mae`n cynnwys darpariaeth effeithiol iawn ar gyfer plant ag AAA, ac i`r rhai sydd â`r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae ethos yr ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal drwy ddilyn cwricwlwm sy`n rhoi cyfle i`r disgyblion gyflawni eu potensial llawn.

28. Mae`r ysgol yn cynnig ystod eang iawn o weithgareddau y tu allan i oriau dysgu ac mae`r disgyblion yn eu gwerthfawrogi a`u gweld fel un o brif atyniadau`r ysgol. Maent yn cynnwys gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol ac mae`r ysgol wedi llwyddo ar lefel lleol, sirol a chenedlaethol, yn enwedig yng nghystadlaethau`r Urdd.

29. Mae`r ysgol yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol ei disgyblion mewn ffordd weithredol ac effeithiol drwy gynnwys diwrnodau o adnabyddiaeth diwylliannol yn y cwricwlwm, ac mae grŵp o rieni o Japan yn cynnig Clwb Japaneaidd bob wythnos, ar ôl ysgol. Cedwir cysylltiadau da gydag ysgolion o dramor ac mae llwyddiant datblygiad diwylliannol yr ysgol wedi`i gydnabod drwy dderbyn Gwobr y Cyngor Prydeinig am ddatblygiad rhagorol o`r dimensiwn rhyngwladol yn y cwricwlwm.

30. Mae`r disgyblion yn ymwybodol o sawl nodwedd o Gymru fel cenedl ac yn eu gwerthfawrogi, ac adlewyrchir hyn drwy lawer o`u gwaith arddangos o gwmpas yr ysgol.

31. Mae ansawdd y gofal, y cyfarwyddyd a`r gefnogaeth i`r disgyblion yn rhagorol. Mae perthynas gadarnhaol yn cael ei meithrin yn effeithiol rhwng y disgyblion a`r staff. Gwerthfawrogir a datblygir cyfraniad pob unigolyn o fewn cymuned ofalgar ble mae pwysigrwydd cyfeillgarwch, goddefgarwch, cwrteisi a charedigrwydd o`r pwys mwyaf. Mae`r disgyblion yn siarad yn gwrtais gydag oedolion ac yn gofyn am gefnogaeth a chyfarwyddyd yn ôl eu hangen.

32. Sefydlir partneriaeth agos gyda rhieni, gofalwyr a gwasanaethau cefnogi AAA mewn materion sy`n ymwneud ag iechyd a diogelwch y disgyblion. Mae`r ysgol, fodd bynnag, yn ymwybodol fod eisiau datblygu`n ymhellach rhai agweddau o roi gwybodaeth i rieni.

33. Caiff pob disgybl fynediad i raglen addysgol personol a chymdeithasol yr ysgol, sydd yn drawiadol, yn gynhwysfawr ac yn addas.

34. Mae iechyd a diogelwch cyffredinol y disgyblion yn flaenoriaeth i`r ysgol. Cynhelir asesiadau risg manwl a thrwyadl yn ymwneud â phob agwedd o fywyd ysgol gan gynnwys ymweliadau ysgol, offer ac adnoddau. Mae`r ysgol yn hyrwyddo ymarferion bwyta`n iach ac yn rhan o`r fenter "Ysgolion Iach".

35. Nodwedd ragorol o`r ysgol yw`r trefniadau sy`n bodoli ar gyfer adnabod plant ag anghenion arbennig o oedran cynnar ynghŷd a`r disgyblion sydd ag anawsterau dysgu difrifol. Mae`r ysgol wedi sefydlu perthynas dda iawn ag asiantaethau allanol arbenigol er mwyn diwallu anghenion penodol y disgyblion hynny sydd ag AAA diffiniedig neu anghenion meddygol. Mae gan y Cynlluniau Addysg Unigol (CAU) amcanion clir a realistig sy`n cael eu hadolygu a`u diweddaru yn gyson.

36. Mae`r ysgol yn gweithredu polisi ymddygiad cynhwysfawr yn effeithiol. Mae`r polisi yn pwysleisio hunan barch a pharch at eraill. Mae strategaethau ardderchog fel "The Golden Tree" yn cefnogi dulliau ymddygiad a gwrth-fwlio`r ysgol yn effeithiol.

37. Nodwedd ragorol o ddarpariaeth yr ysgol yw`r gefnogaeth a`r hyfforddiant a roddir i blant sydd ag ychydig neu ddim gwybodaeth o`r Saesneg. Mae cefnogaeth a gwaith adeiladol yr athrawon arbenigol, staff cefnogi a`r myfyrwyr sy`n gwirfoddoli yn cael effaith sylweddol ar gynnydd ac integreiddiad y disgyblion hyn i bob agwedd o fywyd ysgol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

38. Mae`r pennaeth a`r dirprwy yn gweithio`n agos fel partneriaeth i gyd-lynu gwaith athrawon, staff cefnogi, bwrdd llywodraethwyr a rhieni. Mae ganddynt welediad clir o gyfeiriad strategol yr ysgol ac yn cynnig arweiniad rhagorol ac effeithiol ar gyfer datblygiad yr ysgol.

39. Gwneir defnydd trawiadol o arbenigedd athrawon unigol er mwyn hyrwyddo darpariaeth o`r cwricwlwm. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau cyrhaeddiad y disgyblion. Mae`r staff yn dangos ymrwymiad cryf iawn i wellhad parhaol a chynnal safonau uchel ac ansawdd ym mhob agwedd o`r ddarpariaerh.

40. Mae`r ysgol yn hyrwyddo disgwyliadau uchel ac adlewyrchir rhain yn y targedau a`r disgwyliadau a osodir i ddisgyblion ac i oedolion. Mae targedau`r disgyblion wedi`u selio ar ddadansoddiadau agos o`u cynnydd unigol a thracio.

41. Mae`r llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol a chefnogol drwy gynnal cyfarfodydd is-bwyllgor ac ymweliadau addas yn rheoliadd. Maen nhw`n gweithio`n dda o dan arweiniad y pennaeth a`r dirprwy i osod cyfeiriad strategol yr ysgol.

42. Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunan arfarnu da iawn. Mae`r Uwch Dîm Rheoli yn monitro ansawdd y dysgu yn rheolaidd ac yn cyfrannu`n effeithiol at broses yr ysgol o hunan-adolygiad. Mae pob cydlynydd yn monitro safonau eu pwnc gan

ddefnyddio`r dystiolaeth caiff ei chasglu yn dda er mwyn cynhyrchu adroddiadau blynyddol.

43. Ar hyn o bryd nid yw`r ysgol yn cynnwys y disgyblion yn llawn yn y broses hunan arfarnu er fod cyngor yr ysgol yn cynnig awgrymiadau ar sut i wella`r ysgol. Gwneir sylwadau ar adroddiad hunan arfarnu`r ysgol gan y corff llywodraethwyr tra bod system o helpu llywodraethwyr i wneud arfarniad strwythuredig o`u rôl wedi`i mabwysiadu yn ddiweddar ac yn cael ei gyflwyno yn fuan.

44. Cynhyrchir adroddiad hunan arfarnu yr ysgol ar ôl trafodaethau hir gan staff a gwneir defnydd da o ystod o dystiolaeth i gefnogi`r barnau. Er bod y ddogfen yn nodi cryfderau`r ysgol yn effeithiol, nid yw`n nodi`n glir ardaloedd i`w gwella.

45. Mae tystiolaeth yr hunan arfarnu yn cael ei defnyddio`n dda iawn i reoli newid ac i ddylanwadu ar gynllunio strategol. Mae`r Uwch Dîm Rheoli yn monitro cynnydd yr ysgol yn erbyn targedau yn y CDY ac mae`r pennaeth yn adrodd nôl i`r llywodraethwyr.

46. Mae`r adnoddau yn cyd-fynd â blaenoriaethau`r ysgol mewn modd rhagorol ac mae ariannu hael ar gael i lenwi bylchau ac ymestyn yr ystod o adnoddau ymhob pwnc.

47. Mae lefel da iawn o staffio ar gyfer cwrdd ag anghenion disgyblion a chefnogi`r cwricwlwm. Mae ansawdd a nifer yr adnoddau yn rhagorol. Mae cynllunio effeithiol i`r dyfodol wedi sicrhau bod symiau sylweddol o arian wedi`u buddsoddi mewn adnoddau dysgu; mae gan bob dosbarth fyrddau gwyn rhyngweithiol a chyfrifiaduron ac mae gan yr ysgol gasgliad da iawn o lyfrau ac adnoddau.

48. Mae cryn fuddsoddiad wedi`i wneud er mwyn gwella awyrgylch mewnol ac allanol yr ysgol ers yr arolwg diwethaf. Mae`r prif adeilad yn cael ei chynnal yn dda a gwneir defnydd effeithiol o`r lleoedd dysgu, gan gynnwys y coridorau.

49. Mae gan y pennaeth systemau effeithiol er mwyn sicrhau fod yr adnoddau sydd ar gael i`r ysgol, gan gynnwys yr ardal amgylchynnol, yn cael eu defnyddio`n llawn i gefnogi addysgu a dysgu.

50. Mae`r ysgol yn sicrhau gwerth am arian yn dda iawn.

Argymhellion

51. Er mwyn adeiladu ar gryfderau sylweddol yr ysgol, mae angen

A1 codi safonau mewn dwyieithrwydd ar draws yr ysgol;

A2 datblygu ymhellach dulliau hunan arfarnu i gynnwys barn pawb; *

A3 gwella ansawdd cyfathrebu â rhieni;

A4 sicrhau mwy o gysondeb wrth farcio gwaith disgyblion

A5 cymryd camau i wella lefelau presenoldeb.

*Mae`r ysgol yn ymwybodol o hyn ac yn un o`i blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio ei gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o gael yr adroddiad, gan ddangos yr hyn fydd yr ysgol yn ei wneud ynghylch yr argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

52. Mae canfyddiadau`r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddaid hunan arfarnu.

53. Mae`r safonau cyflawniad yn y gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
42%	55%	3%	0%	0%

54. Mae safonau`r disgyblion yn y gwersi a arsylwyd dipyn yn uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru gyfan erbyn 2007, hynny yw, 98% o safonau yn foddhaol (cydradd â Gradd 3) a 65% yn dda (cydradd â Gradd 2) neu`n well.

55. Yn y pynciau a arolygwyd, mae`r safonau a gyflawnwyd fel a ganlyn:

Pwnc	CA1	CA2
Saesneg	Gradd 1	Gradd 1
Mathemateg	Gradd 1	Gradd 1
Technoleg Gwybodaeth	Gradd 1	Gradd 1
Hanes	Gradd 1	Gradd 1
Cerddoriaeth	Gradd 1	Gradd 1
Celf	Gradd 1	Gradd 1

56. Mae safonau yn Saesneg, mathemateg, technoleg gwybodaeth, hanes, celf a cherddoriaeth wedi codi ers yr arolwg diwethaf. Mae`r canlyniadau mewn profion asesu y CC wedi gwella`n raddol dros y dair blynedd ddiwethaf.

57. Mewn asesiadau CC yn 2005, roedd canlyniadau CA1 (mewn asesiadau athrawon) yn uwch na`r cyfartaleddau AALl a Chymru gyfan mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd canran y disgyblion yn cyflawni o leiaf lefel 2 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na`r cyfartaleddau AALl a Chymru gyfan. Wrth gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru, gwelir fod y canlyniadau yn y 25% cyntaf (uchaf) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae canran y disgyblion sy`n cyflawni o leiaf lefel 2 yn y tri phwnc o fewn y 25% cyntaf. Yn CA2, roedd y canlyniadau (mewn asesiadau athrawon) yn uwch na chanlyniadau`r AALl a chyfartaleddau Cymru gyfan mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd canran y disgyblion yn cyflawni o leiaf lefel 4 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaleddau yr AALl a Chymru gyfan. Wrth gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru, mae`r canlyniadau yn y 25% cyntaf mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae

canran y disgyblion sy`n cyflawni o leiaf lefel 4 yn y tri phwnc o fewn y 25% cyntaf. Does dim patrwm amlwg dros gyfnod mewn canlyniadau bechgyn a merched. Dros y dair blynedd ddiwethaf, mae`r ysgol wedi cyflawni ei holl dargedau.

58. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump oed yn briodol i`w hanghenion, a gwna`r disgyblion gynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

59. Gwna`r plant dan bump oed gynnydd da yn eu medrau rhifedd cynnar a`u medrau cyfathrebu, sef siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Erbyn diwedd y dosbarth derbyn mae gan y plant fedrau personol a chymdeithasol aeddfed. Mae eu medrau technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu yn datblygu`n dda hefyd.

60. Yn y ddau gyfnod allweddol gwna disgyblion gynnydd da iawn yn y medrau allweddol o siarad a gwrando. Maent yn gwrando`n astud ar athrawon a`u cyd-ddisgyblion ac yn mynegi syniadau yn hyderus, gan ddefnyddio rhestrau o iaith a geirfa sy`n addas i`r cynnwys. Darllenant yn dda i ennill gwybodaeth, ac mae safonau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn dda iawn. Mae disgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth fathemategol yn dda iawn mewn nifer o gyd-destunau, er enghraifft, wrth fesur a recordio mewn gwyddoniaeth. Maent yn gwneud defnydd ardderchog o`u medrau TGCh i gefnogi ac i gyfoethogi eu dysgu mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

61. Mae gan fedrau dwyieithog y disgyblion nifer o nodweddion da sy`n gorbwyso diffygion. Dengys rhai, yn enwedig ar ôl mynychu cwrs ymdrochi, ddealltwriaeth resymol o`r iaith Gymraeg. Fodd bynnag, mae defnydd achlysurol o`r Gymraeg gan staff a disgyblion yn ystod y dydd yn anghyson ar draws yr ysgol.

62. Mae medrau creadigol y disgyblion wedi`u datblygu`n dda iawn a`r canlyniad yw gwaith sydd weithiau yn rhagorol, er enghraifft, mewn Saesneg a chelf.

63. Mae`r disgyblion, heb ystyried eu gallu, yn llwyddo pa beth bynnag eu cefndir ieithyddol, cymdeithasol neu ethnig. Mae`r disgyblion sydd ag AAA a`r dysgwyr sydd â`r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn cyflawni safonau da yn ôl eu hoedran a`u gallu.

64. Mae`r disgyblion yn dangos gallu da iawn i ddysgu medrau newydd, er enghraifft mewn TGCh. Drwy`r cyngor ysgol, maent yn datblygu dealltwriaeth o sut mae sefydliadau democrataidd yn gweithio, ac mae`r aelodau yn deall eu cyfrifoldebau wrth gynrychioli`r rhai wnaeth eu hethol.

65. Mae`r ysgol wedi dechrau system lle mae`r disgyblion yn cymryd rôl weithgar mewn gosod targedau eu hun er mwyn gwella. Ar hyn o bryd, mae`r rhan fwyaf yn ddibynnol ar eu hathrawon er mwyn gosod targedau ond mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau a gwendidau eu gwaith a`r hyn sydd eisiau iddynt ei wneud er mwyn gwella. Mae`r mwyafrif yn cyflawni`r targedau a osodir ac mae`r disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at y cam nesaf yn eu dysgu.

66. Mae gan y disgyblion agweddau cadarnhaol iawn tuag at ddysgu ac yn mwynhau eu gwersi. Maent yn dangos graddau uchel o gymhelliad, yn cwblhau tasgau gyda brwdfrydedd amlwg, yn canolbwyntio yn dda, yn dyfalbarhau ac yn rhoi o`u gorau er mwyn cyflawni safonau uchel.

67. Mae safonau ymddygiad y disgyblion yn uchel iawn ac yn adlewyrchu disgwyliadau`r ysgol. Mae`r disgyblion yn gwrtais tu hwnt ac yn ystyriol gan ddangos graddau rhagorol o hunan ddisgyblaeth. Maent yn mwynhau helpu oedolion a chyd-ddisgyblion ac yn ymateb yn frwdfrydig i unrhyw gyfrifoldeb a roddir iddynt. Fel canlyniad, mae cymuned yr ysgol yn un gyfeillgar a threfnus ac mae`r amgylchedd ddysgu yn gadarnhaol iawn.

68. Canran presenoldeb y disgyblion dros y tri thymor diwethaf yw 93%, sydd yn llai na`r hyn a ddisgwylir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae absenoldebau heb awdurdod yn brin iawn.

69. Mae disgyblion yn gweithio`n effeithiol fel aelodau o grŵp ac yn dangos y medrau angenrheidiol i weithio`n annibynnol pan roddir cyfle iddynt wneud hyn. Er enghraifft, maent yn casglu`r wybodaeth sydd angen arnynt o ystod o ffynonellau gan gynnwys llyfrgell yr ysgol a`r rhyngrwyd.

70. Gwna`r disgyblion gynnydd ardderchog yn eu medrau personol a chymdeithasol. Mae ganddynt werthoedd moesol da ac yn eu harddangos yn rheolaidd o ddydd i ddydd ym mywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn ystyriol, cyfeillgar ac yn gwrtais i`w gilydd ac wrth ymdrin â staff ac ymwelwyr a chanddynt ddealltwriaeth clir o dda a drwg. Maent yn cydweithio`n dda gyda`i gilydd mewn gwersi a gweithgareddau eraill. Mae`r berthynas rhwng pawb yn yr ysgol yn rhagorol.

71. Mae`r disgyblion yn deall yr egwyddor o gyfle cyfartal yn dda iawn gan fod yr ysgol yn pwysleisio ei bwysigrwydd yn gyson. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o`r ystod o gredoau o fewn cymdeithas ac yn eu parchu. Mae`r modd y mae disgyblion o bob cefndir diwylliannol yn byw a gweithio yn gytûn yn un o gryfderau`r ysgol.

72. Mae gan y disgyblion werthfawrogiad da iawn o`r gymuned fel canlyniad i ambell i fenter ardderchog a nifer o gysylltiadau cyffredinol, er enghraifft, cysylltiadau â`r heddlu, cyngherddau ar gyfer elusennau ac ymweliadau â sefydliadau lleol. Enghraifft o ragoriaeth yw`r rhaglen “Dim Prob”, sy`n golygu fod myfyrwyr o brifysgolion lleol yn ymweld â`r ysgol er mwyn helpu plant o`u gwledydd nhw sydd yn brin eu Saesneg neu heb Saesneg o gwbl ar y pryd.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

73. Mae canfyddiadau`r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiaid hunan arfarnu.

74. Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
43%	43%	14%	0%	0%

75. Mae`r ganran o addysgu Gradd 1 a Gradd 2 yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae`r ganran o addysgu Gradd 1 gryn dipyn yn uwch na`r cyfartaledd cenedlaethol.

76. Mae polisïau addysgu`r ysgol wedi`u dogfennu a`u cynllunio`n dda er mwyn darparu`r addysg orau bosibl a fydd yn paratoi`r disgyblion ar gyfer bywyd a gwaith.

77. Mae ansawdd y berthynas ymysg staff a`r disgyblion yn dda iawn ac yn un o gryfderau`r ysgol; mae`n cyfrannu`n fawr tuag at ddisgwyliadau a safonau uchel o addysgu.

78. Mae athrawon yn cynllunio`n ofalus ac yn ceisio ymdrechu i sicrhau fod pob disgybl yn cyflawni ei botensial llawn, ac mewn rhai achosion i fynd tu hwnt i`w disgwyliadau. Ar ddechrau pob gwers mae athrawon yn nodi`n glir amcanion y wers a`u pwysleisio. Mae rhai o nodweddion rhagorol llawer o`r gwersi ardderchog ac arsylwyd yn ystod yr arolwg yn cynnwys y ffordd mae athrawon yn cymell disgyblion, drwy eu hannog i roi cynnig ar dasgau sydd â mwy o sialens iddynt, drwy drafodaethau a`r ddarpariaeth o nifer o weithgareddau amrywiol. Maent yn trefnu grwpiau dysgu yn effeithiol gan sicrhau cyfleoedd er mwyn i`r disgyblion gyrraedd eu potensial llawn, drwy ddysgu cadarnhaol, cynhyrchiol a rhyngweithiol. Datblygir medrau meddwl y disgyblion yn dda gan athrawon drwy ddefnyddio strategaethau dysgu sy`n cyfateb ag arddulliau dysgu a galluoedd y disgyblion.

79. Lle mae`r addysgu`n dda, mae`r athrawon yn sefydlu amgylchedd dysgu cyffrous sy`n arwain at ddysgu effeithiol a`r hyrwyddiad o safonau uchel i ddisgyblion o bob gallu. Maent yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau cwestiynu er mwyn datblygu medrau meddwl effeithiol ac uwch y disgyblion. Gwnânt ddefnydd effeithiol o adnoddau addas, gan gynnwys adnoddau technoleg gwybodaeth, i gyfoethogi`r dysgu.

80. Mae athrawon yn gwahaniaethu gwaith yn addas, drwy dasgau sydd wedi`u paratoi yn ofalus a thrwyadl, er mwyn sicrhau fod plant ag AAA yn cael eu dysgu yn unol â`r targedau yn eu CAU.

81. Nodweddion da eraill o`r addysgu ydy`r datblygiad o fedrau ymchwilio`r disgyblion drwy arweiniad effeithiol a chefnogaeth gyfeiriol. Mae athrawon yn rhoi cyfle i`r disgyblion arfarnu eu gwaith a thrafod eu darganfyddiadau gyda disgyblion eraill. Maent yn rhoi gweithgareddau estynedig i`r disgyblion mwyaf galluog ac yn gwneud defnydd effeithiol o gynorthwywyr dysgu i gefnogi disgyblion ag AAA a`r rhai sydd â`r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt er mwyn sicrhau darpariaeth o ansawdd da sy`n cwrdd a`u hanghenion penodol.

82. Fodd bynnag, ceir rhai diffygion, er enghraifft, pan mae ormodedd o fewnbwn gan athrawon yn golygu bod cyfleoedd annigonol i`r disgyblion i feithrin annibyniaeth yn eu dysgu. Yn ogystal, mewn rhai achosion mae gwersi yn anaddas o ran cyflymder a sialens ac nid yw`r cynllunio manwl yn gwneud sylw digonol o`r targedau sydd yn CAU nifer fach o ddisgyblion.

83. Mae gan athrawon wybodaeth dda iawn o`u meysydd pwnc, gyda rhai yn cyfrannu at gyrsiau hyfforddi`r AAL. Mae eu harbenigedd mewn gwahanol feysydd yn adlewyrchu`r safonau uchel o addysgu o fewn yr ysgol. Maent yn llawn ymwybodol o ddatblygiadau diweddaraf yn eu meysydd a`u pynciau arbenigol ac yn defnyddio`u gwybodaeth i gyfoethogi`r ddarpariaeth o fewn yr ysgol. Mae athrawon yn sicrhau defnydd addas o`r holl adnoddau ac yn sicrhau cyfleoedd cyfartal ar gyfer dysgu i`w holl ddisgyblion.

84. Nodwedd nodedig o`r addysgu yw`r sylw a roddir i ddatblygu medrau meddwl a dysgu`r disgyblion. Anogir y disgyblion i ofyn cwesytiynau addas, ac i ddatblygu medrau rhesymu a chreadigol yn y gwersi. Cynllunir y gwersi yn dda ac maent yn rhan o gyfres o gynlluniau tymor hir a thymor byr sydd wedi`u dogfennu`n dda sy`n ystyried rhaglenni astudio`r Cwricwlwm Cenedlaethol, ynghŷd ag adnoddau a gweithgareddau addas. Mae`r cynllunio yn cyfeirio at y medrau allweddol, sydd wedi`u dogfennu ar wahan a`u cysylltu yn fanwl i bob gwers, ond does dim cyfeiriad at gyfleoedd ar gyfer asesu neu arfarniad o`r gwersi yn y cynllunio tymhorol.

85. Anogir y disgyblion i wneud defnydd llawn o amrywiaeth o adnoddau dysgu, gan gynnwys technoleg gwybodaeth, ac mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd dysgu da iawn sy`n cyfateb ag arddulliau dysgu`r disgyblion. Mae rhai disgyblion yn medru adnabod ffyrdd o wella eu gwaith a rhoddir cyfleoedd da iddynt ddehongli gwaith eu gwersi ac i fynegi barn ar dasgau maent wedi ymgymryd â nhw. Mae`r ysgol yn sicrhau fod disgyblion yn derbyn gwaith cartref yn rheolaidd, ac mae`r disgyblion yn mwynhau`r tasgau a osodir iddynt gan ddweud eu bod yn cyfoethogi eu dealltwriaeth o`r themau a astudir yn eu gwersi.

86. Mae`r ysgol yn sicrhau cyfleoedd cyfartal i`w holl ddisgyblion gan gynnwys yr agweddau hyn yn llwyddianus o fewn ei dysgu o fedrau personol a chymdeithasol ynghŷd â mewn sesiynau Amser Cylch i`r plant lleiaf yn y bore.

Mae`r ddarpariaeth ar gyfer plant sydd â`r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn gryfder yn yr ysgol, ac mae`r disgyblion yn gwneud cynnydd da fel canlyniad i dasgau gwahaniaethol a chefnogaeth effeithiol. Mae adnoddau addas ar gael sy`n cael eu haddasu ar gyfer anghenion y disgyblion. Mae cydbwysedd addas o adnoddau ar gyfer bechgyn a merched, ac mae`r ysgol, drwy gyfateb gweithgareddau i`w hanghenion a`u galluoedd yn sicrhau fod y disgyblion yn cael mynediad llawn i bob agwedd o ddysgu ac yn cymryd rhan yn llawn.

87. Datblygir medrau dwyieithog y disgyblion o fewn gwersi, ac mae cysylltiad yr ysgol â phrosiect trochi mewn iaith yn nodi cynnydd ardderchog. Fodd bynnag, anghyson yw`r defnydd o Gymraeg achlysurol ar draws yr ysgol.

88. Mae`r dysgu a`r cynllunio yn llwyddo i ystyried galluoedd a chefndiroedd gwahanol y disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio adnoddau a chefnogaeth addas er mwyn sicrhau fod y disgyblion i gyd yn cyrraedd eu potensial llawn. Mewn pob gwers, cynllunir gwaith yn ofalus i gwrdd ag anghenion gwahanol y disgyblion, a sefydlir grwpiau o fewn y dosbarthiadau er mwyn hyrwyddo eu cyfleoedd dysgu. Gwahaniaethir y gwaith yn ôl y dasg, adnoddau, cefnogaeth neu ddeilliannau er mwyn cwrdd ag anghenion disgyblion AAA sydd â mynediad llawn i bob agwedd o`r ddarpariaeth.

89. Mae ansawdd yr asesu yn dda; cedwir cofnodion manwl a thrwyadl o gynnydd plant ar draws yr ysgol. Mae`r broses hon yn galluogi athrawon i adnabod cyrhaeddiadau a chyflawniadau disgyblion ynghŷd ag adnabod disgyblion sydd yn dangyflawni.

90. Mae ansawdd yr asesu yn y blynyddoedd cynnar yn dda iawn a defnyddir asesu sylfaen wrth i`r disgyblion ddechrau yn yr ysgol fel sail i adnabod anghenion addysgol arbennig (AAA).

91. Ceir dadansoddiad effeithiol o`r data a chesglir mewn profion amrywiol, gan ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio a darpariaeth ymhellach. Gwneir feirniadaeth dymhorol o`r pynciau craidd a sylfaenol, a`u cyfateb â lefelau cyrhaeddiad y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae hyn yn hwyluso gosod targedau unigol a`r dewis o strategaethau addas ar gyfer symud disgyblion ymlaen i lefel nesaf eu datblygiad. Mae ffeil gofnod pob disgybl yn cynnwys canlyniadau pob prawf, ynghŷd ag enghreifftiau o waith cyfredol a sylwadau`r plant am eu gwaith. Defnyddir y wybodaeth hon yn addas gan athrawon wrth gynllunio gwersi ac i osod targedau i ddisgyblion ar draws y grwpiau blwyddyn. Danfonir sgorau profion yn y pynciau craidd i`r AAL ddwywaith y flwyddyn.

92. Asesir disgyblion ag AAA gan ddefnyddio profion safonedig, sy`n nodi cynnydd, a phrofion diagnostig, sy`n nodi dulliau i`w defnyddio i sicrhau cynllunio digonol ac addas ar gyfer gwellhâd ymhellach mewn amrywiaeth o fedrau cymdeithasol a dysgu.

93. Mae adborth llafar i ddisgyblion yn eu galluogi i ddeall cryfderau a gwendidau yn eu gwaith, ac mae nifer o athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn ofalus, gan roi sylwadau cefnogol a thargedau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw`r ymarfer hwn yn gyson dros yr ysgol, ac mewn rhai achosion, mae`r marcio yn

arwynebol heb roi digon o arweiniad i wella yn y dyfodol. Nid oes system cyd-drefnedig gan yr ysgol ar gyfer monitro ansawdd marcio gwaith disgyblion dros y pynciau, gan fod y cyfrifoldeb gan athrawon unigol.

94. Defnyddir asesiad athro ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 a 2 a chynhwysir y wybodaeth hon yn yr adroddiadau blynyddol i rieni. Mae pob dull asesu, recordio ac adrodd yn cwrdd â gofynion statudol, a rhennir y wybodaeth gyda rhieni a disgyblion. Gwahoddir rhieni i wneud sylwadau ar gynnyd disgyblion ar yr adroddiadau blynyddol, ac i ymweld â`r ysgol ar ddiwedd pob tymor i drafod cynnydd.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

95. Nid yw canfyddiadau`r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunan arfarnu, sef Gradd 1. Canfyddwyd y tîm fod y ddarpariaeth ar gyfer dwyieithrwydd yn anghyson ar draws yr ysgol.

96. Mae`r ysgol yn darparu ystod eang ac amrywiol o weithgareddau dysgu i`r disgyblion, sy`n eu herio i gyflawni rhagoriaeth. Gwneir hyn drwy gynnig cwricwlwm eang a chytbwys, sy`n cwrdd â gofynion stadudol gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (AbaCH) ac addysg grefyddol. Mae`n cynnwys darpariaeth effeithiol iawn ar gyfer plant ag AAA, ac i`r rhai sydd â`r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae ethos yr ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal drwy ddilyn cwricwlwm sy`n rhoi cyfle i`r disgyblion gyflawni eu potensial llawn.

97. Mae athrawon yn sicrhau fod y medrau allweddol o gyfathrebu, rhifedd a TGCh wedi`u gosod ar draws y cwricwlwm, ac mae`r defnydd o TGCh mewn nifer o bynciau yn gryfder yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i`r disgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau dwyieithog yn achlysurol yn ystod y dydd, nac ar draws y cwricwlwm. Mae`r ysgol wedi ennill y Marc Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol am y trydydd tro.

98. Mae`r ysgol yn cynnig ystod eang iawn o weithgareddau y tu allan i oriau dysgu ac mae`r disgyblion yn eu gwerthfawrogi a`u gweld fel un o brif atyniadau`r ysgol. Maent yn cynnwys gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol ac mae`r ysgol wedi llwyddo ar lefel lleol, sirol a chenedlaethol, yn enwedig yng nghystadlaethau`r Urdd. Mae`r disgyblion yn mwynhau nifer o gyfleoedd i berfformio mewn gweithgareddau cerddorol a chyngherddau sy`n rhoi proffil uchel iddynt yn y gymuned.

99. Hyrwyddir datblygiad moesol y disgyblion yn dda pan roddir cyfle iddynt wrando ac ymateb i storiau sydd wedi`u selio ar faterion moesol, a thrwy amrywiaeth o fentrau gan y disgyblion i godi arian ar gyfer achosion da, yn lleol ac yn ryngwladol. Mae gan y disgyblion synnwyr da o dda a drwg.

100. Serch hynny, ni ddatblygir datblygiad ysbrydol cystal drwy`r cwricwlwm. Gwelir rhai elfennau o ysbrydolrwydd mewn rhai agweddau o addoli ar y cyd, ond ni ddatblygir rhain yn ddigonol i ddarparu cyfleoedd addas a chyson i fyfyrdod a myfyrdod personol.

101. Mae`r ysgol yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol ei disgyblion mewn ffordd weithredol ac effeithiol drwy gynnwys diwrnodau o adnabyddiaeth diwylliannol yn y cwricwlwm, ac mae grŵp o rieni o Japan yn cynnig Clwb Japaneaidd bob wythnos, ar ôl ysgol. Cedwir cysylltiadau da gydag ysgolion o dramor ac mae`r ysgol wedi penodi aelod o staff fel Cyd-lynydd Rhyngwladol. Mae`r fenter hon yn cyfoethogi profiadau`r disgyblion o wahanol ddiwylliannau a chedwir cysylltiadau e-bost rwhng yr ysgol ac ysgolion yn yr Eidal a Denmarc. Mae llwyddiant datblygiad diwylliannol yr ysgol wedi`i gydnabod drwy dderbyn Gwobr y Cyngor Prydeinig am ddatblygiad rhagorol o`r dimensiwn rhyngwladol yn y cwricwlwm.

102. Mae`r gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol amrywiol a chynigir gan yr ysgol yn rhoi digon o gyfle i`r disgyblion gydweithio yn gymdeithasol, ac mae eu hymddygiad canmoladwy a`u cwrteisi yn dyst i effeithiolrwydd hyrwyddiad yr ysgol o safonau uchel mewn datblygiad cymdeithasol.

103. Mae`r trefniadau ar gyfer plant sy`n dechrau yn yr ysgol a`r disgyblion sy`n trosglwyddo i`r ysgol uwchradd yn effeithiol ac wedi`u sefydlu`n dda. Mae gan yr ysgol gysylltiad pontio da gyda`r ysgol uwchradd lle mae disgyblion yn dechrau prosiect yn B6 ac yn eu cwblhau yn ystod B7. Mae`r ysgol yn derbyn myfyrwyr o amryw o sefydliadau ar gyfer hyfforddi athrawon ac ar hyn o bryd yn ystyried cymeryd rhan mewn cynllun i hyfforddi darpar athro yn yr ysgol am flwyddyn.

104. Drwyddi draw mae`r bartneriaeth â`r rhieni yn dda iawn ac yn ystod y cyfarfod cyn-arolygiad, dywedwyd eu bod yn fodlon iawn ag ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol. Roedd nifer sylweddol, fodd bynnag, yn datgan nad oedd cyfathrebu rhwng yr ysgol a`r cartref bob amser yn effeithiol. Mae pawb wedi arwyddo cytundeb cartref/ysgol.

105. Caiff disgyblion nifer o gyfleoedd i ddod yn ymwybodol o fyd gwaith a sut mae`n arwyddocaol i`w bywyd nhw. Mae llawer o ymweliadau dwyochrog i fusnesau lleol a chrefftwyr sy`n ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion. Enghraifft rhagorol o hyn oedd grŵp o blant yn cyd-weithio gyda thrydanwr lleol i gynllunio a gwneud larwm lladron.

106. Mae`r ysgol wedi cwblhau Prosiect Trochi Iaith yn llwyddianus gyda disgyblion B5, sydd wedi gwella gallu`r disgyblion hyn i ddefnyddio`r Gymraeg yn effeithiol. Fodd bynnag, mae defnydd anaml ac afreolaidd o Gymraeg achlysurol yn rhwystro datblygiad y disgyblion i fod yn rhugl, ac nid oes digon o gyfleoedd i`r disgyblion ddefnyddio Cymraeg yn achlysurol o gwmpas yr ysgol.

107. Mae`r cynlluniau gwaith yn adlewyrchu gwahanol agweddau o`r Cwricwlwm Cymreig yn dda, ac mae gan yr ysgol bolisi clir ar gyfer ei gynnwys o fewn

pynciau. Mae`r disgyblion yn ymwybodol o sawl nodwedd o Gymru fel cenedl ac yn eu gwerthfawrogi, ac adlewyrchir hyn drwy arddangosfeydd o`u gwaith o gwmpas yr ysgol.

108. Mae `na bolisïau da iawn sy`n adlewyrchu ymrwymiad yr ysgol tuag at hyrwyddo cyfartaledd o ran mynediad a chyfleoedd i bawb. Gweithredir rhain yn effeithiol iawn ac mae pob disgybl yn teimlo fel aelod gwerthfawr o`r gymuned ysgol. Nodwedd o hyn yw`r ethos o gyfeillgarwch a chydbarch.

109. Mae`r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o`r amgylchedd yn llwyddianus, ynghŷd ag agweddau cadarnhaol at ddatblygiad cynaliadwy. Mae disgyblion o`r ddau gyfnod allweddol wedi ymgymryd â gweithgareddau yn ymwneud â chadwraeth ynni a dŵr, ac mae gardd yr ysgol yn rhoi cyfleoedd i`r disgyblion astudio a gwerthfawrogi bywyd gwyllt mewn cynefin naturiol. Mae`r disgyblion yn ymwneud ag amrywiaeth o brosiectau ail-gylchu, ac yn ymwybodol o ddatblygiad cynaliadwy mewn gwledydd eraill, ac adlewyrchir y mentrau hyn gan yr ysgol mewn prosiect eco.

110. Mae`r ysgol wedi annog y disgyblion i ymhel â gwaith elusennol, fel apêl Tsunami. Trefnwyd diwrnodau hwyl gan godi swm sylweddol. Mae`r disgyblion yn cael profiad da iawn o egwyddorion busnes drwy redeg stondin ffrwythau. Yn dilyn ymdrech gyntaf aflwyddiannus, anogwyd y disgyblion i adolygu eu cynlluniau a`r canlyniad oedd cynnyrch llawer gwell a gwerthfawrogiad o`r hyn sydd eisiau ar fusnes i lwyddo.

111. Mae gweithgareddau`r ysgol i hyrwyddo medrau meddwl a gwrando`r disgyblion yn gymorth i ddatblygu arferion dysgu da a fydd yn galluogi`r disgyblion i`w defnyddio yn gynyddol wrth iddynt symud i ysgol uwchradd ac i weithgareddau tu hwnt i fywyd ysgol yn y pen draw. Mae`r ysgol wedi ymgymryd â phrosiect llwyddianus gydag ysgol gynradd ac uwchradd leol i ddarparu Rhaglen Ddysgu a Hamdden i annog rhieni, ynghŷd â`u plant i ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon lleol o fewn eu cymuned.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

112. Mae canfyddiadau`r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunan arfarnu.

113. Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a`r cyfarwyddyd a gynigir i ddisgyblion yn rhagorol. Mae perthynas gadarnhaol yn cael ei meithrin yn effeithiol rhwng y disgyblion a`r staff. Gwerthfawrogir a datblygir cyfraniad pob unigolyn o fewn cymuned ofalgar ble mae pwysigrwydd cyfeillgarwch, goddefgarwch, cwrteisi a charedigrwydd o`r pwys mwyaf. Mae`r disgyblion yn siarad yn gwrtais gydag oedolion ac yn gofyn am gefnogaeth a chyfarwyddyd yn ôl eu hangen.

114. Sefydlir partneriaeth agos gyda rhieni, gofalwyr a gwasanaethau cefnogi AAA mewn materion sy`n ymwneud ag iechyd a diogelwch y disgyblion. Mae`r ysgol, fodd bynnag, yn ymwybodol fod eisiau datblygu`n ymhellach rhai agweddau o roi gwybodaeth i rieni.

115. Mae`r ysgol yn darparu rhaglenni sefydlu ardderchog i blant meithrin a derbyn gan gynnwys taflenni a phecynnau defnyddiol sy`n rhoi gwybodaeth a chyfarfodydd cychwynnol â staff. Mae`r plant yn setlo`n hawdd i fywyd a threfn ysgol. Mae hwyrddyfodiaid i`r ysgol hefyd yn cael croeso a chefnogaeth gan strategaethau rhagorol fel System Buddy sy`n gweithio yn llwyddiannus yn y dosbarth a thu allan yn ystod amser chwarae.

116. Caiff pob disgybl fynediad i raglen addysgol personol a chymdeithasol yr ysgol, sydd yn drawiadol, yn gynhwysfawr ac yn addas ac sy`n cynnwys ymweliadau gan swyddogion cyswllt o`r heddlu cymunedol sy`n cynnig arweiniad ar gamddefnydd o gyffuriau ac ymddygiad cymdeithasol.

117. Cedwir cofrestrau yn dda gan eu gwirio`n gyson. Ar hyn o bryd, mae`r ysgol yn ystyried y posibiliadau o gyflwyno cofrestru cyfrifiadurol er mwyn gwella`r system o gadw cofnodion ac i hyrwyddo monitro agos. Mae`r ysgol yn monitro prydlondeb yn effeithiol gan atgoffa`r disgyblion sy`n cyrraedd yn hwyr o bwysigrwydd cyrraedd yr ysgol mewn pryd. Mae gan yr ysgol bolisïau ymddygiad a bwlio ond nid oes unrhyw achos i`w defnyddio wedi codi yn ddiweddar.

118. Mae iechyd a diogelwch cyffredinol y disgyblion yn flaenoriaeth i`r ysgol. Cynhelir asesiadau risg manwl a thrwyadl yn ymwneud â phob agwedd o fywyd ysgol gan gynnwys ymweliadau ysgol, offer ac adnoddau. Mae`r ysgol yn hyrwyddo ymarferion bwyta`n iach ac yn rhan o`r fenter "Ysgolion Iach".

119. Mae gan y staff, gan gynnwys staff cynorthwyol, ymwybyddiaeth dda eithriadol o bolisi Diogelu Plant yr ysgol ac o weithredu`r camau cywir er mwyn sicrhau lles pawb. Mae gan yr ysgol bolisïau manwl ar iechyd a diogelwch, rhyw a

pherthynas sy`n cael eu gweithredu`n effeithiol ac mae gan sawl aelod o staff gymwysterau cymorth cyntaf cyfredol. Cynhelir driliau tân yn rheoliadd.

120. Nodwedd rhagorol o`r ysgol yw`r trefniadau sy`n bodoli ar gyfer adnabod plant ag anghenion arbennig o oedran cynnar ynghŷd a`r disgyblion sydd ag anawsterau dysgu difrifol. Mae`r ysgol wedi sefydlu perthynas dda iawn ag asiantaethau allanol arbenigol er mwyn diwallu anghenion penodol y disgyblion hynny sydd ag AAA diffiniedig neu anghenion meddygol. Mae gan y Cynlluniau Addysg Unigol (CAU) amcanion clir a realistig sy`n cael eu hadolygu a`u diweddaru yn gyson. Gwerthfawrogir cyfraniad rhieni a rhoddir cyfleoedd iddynt drafod cynnydd disgyblion yn wythnosol. Cynhelir adolygiadau blynyddol yn ôl gofynion y Côd Ymarfer. Mae`r ddarpariaeth yn sicrhau fod disgyblion yn ennill yr hunan barch a`r adnoddau personol sydd angen arnynt i wneud cynnydd da yn eu dysgu ac i gael mynediad i bob agwedd o fywyd ysgol.

121. Fodd bynnag, anghyson yw hygyrchedd cyffredinol y CAU o fewn dosbarthiadau er mwyn galluogi staff i gefnogi anghenion ymddygiad ac addysgol y disgyblion yn addas ac yn effeithiol.

122. Mae`r ysgol yn gweithredu polisi ymddygiad cynhwysfawr yn effeithiol sy`n pwysleisio hunan barch a pharch at eraill. Mae rheolau ymddygiad yr ysgol a`r disgwyliadau ar gyfer goddefgarwch tuag at bawb yn yr ysgol wedi`u harddangos yn weledol o gwmpas yr ysgol ac mae`r staff yn atgoffa`r disgyblion ohonynt yn gyson. Mae strategaethau ardderchog yn cefnogi`r dulliau gweithredu ymddygiad a gwrth-fwlio yn effeithiol.

123. Mae cyngor yr ysgol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i fywyd ysgol. Mae`r aelodau yn gwerthfawrogi`r cyfleoedd i gyfrannu at faterion sy`n effeithio ar eu bywyd dyddiol, fel codi arian ar gyfer teganau amser egwyl ynghŷd â chefnogi polisi ymddygiad yr ysgol gyda “Friendship Stops” ar iard yr ysgol.

124. Nodwedd rhagorol o ddarpariaeth yr ysgol yw`r gefnogaeth a`r hyfforddiant a roddir i blant sydd ag ychydig neu ddim gwybodaeth o`r Saesneg. Mae cefnogaeth a gwaith adeiladol yr athrawon arbenigol, staff cefnogi a`r myfyrwyr sy`n gwirfoddoli yn cael effaith sylweddol ar gynnydd ac integreiddiad y disgyblion hyn i bob agwedd o fywyd ysgol.

125. Mae`r ysgol yn gweithredu polisïau addas sydd wedi`u cynllunio`n dda ar gyfer cyfle cyfartal ei disgyblion ac ar gyfer cefndiroedd cymdeithasol a diwylliannol amrywiol ei disgyblion. Mae ymddygiad ac agweddau`r disgyblion yn adlewyrchu eu dealltwriaeth a`u hymwybyddiaeth o`r angen i barchu gwahaniaethau mewn cred, rhyw ac hil. Mae gan yr ysgol strategaethau arbennig a thrawiadol ar gyfer hyrwyddo parch at amrywiaeth a`r integreiddio cytûn o nifer sylweddol o ddiwylliannau i gymuned yr ysgol.

126. Mae gan yr ysgol gynllun mynediad sy`n sicrhau fod trefniadau addas yn bodoli ar gyfer disgyblion anabl gan sicrhau nad ydynt yn cael triniaeth lai ffafriol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

127. Mae canfyddiadau`r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yr yr adroddiad hunan arfarniad.

128. Mae`r pennaeth a`r dirprwy yn gweithio`n agos fel partneriaeth i gyd-lynu gwaith athrawon, staff cefnogi, bwrdd llywodraethwyr a rhieni. Mae ganddynt welediad clir o gyfeiriad strategol yr ysgol ac yn cynnig arweiniad rhagorol ac effeithiol ar gyfer datblygiad yr ysgol. Sicrheir cydraddoldeb i bawb ac mae amcanion a gwerthoedd cytunedig yn amlwg yn ethos yr ysgol ac ymhob agwedd o`i bywyd a`i gwaith.

129. Dros y deuddeg mis diwethaf mae`r pennaeth wedi cymryd cyfrifoldeb bugeiliol am ysgol arall. Nid yw`r dirprwy bennaeth wedi cael unrhyw ddyletswyddau dysgu llawn amser yn ystod y cyfnod hwn, ac mae hi wedi cymryd cyfrifoldeb mawr drwy redeg yr ysgol o ddydd i ddydd; dyletswydd mae hi wedi`i chyflawni yn effeithlon ac yn effeithiol iawn.

130. Sefydlwyd cynlluniau rheoli rhagorol ymhob agwedd o fywyd ysgol. Mae`r pennaeth, dirprwy a`r Uwch Dîm Rheoli yn gweithio`n effeithlon ac yn effeithiol gyda`i gilydd er mwyn hyrwyddo a chynnal datblygiadau. Mae broses hunan arfarnu a monitro yn ganolog i gynlluniau`r ysgol ar gyfer gwella; mae pynciau ac agweddau o`r ddarpariaeth yn cael eu monitro a`u harfarnu yn drwyadl. Defnyddir arbenigedd athrawon unigol yn drawiadol er mwyn gwella darpariaeth y cwricwlwm sy`n cael effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad y disgyblion.

131. Mae gan yr ysgol ystod eang o bolisïau cwricwlaidd a rheolaeth. Mae`r defnydd ohonynt yn gyson ac fe`u hadolygir yn ôl rhaglen gytunedig. Cynhelir cyfarfodydd staff a thîm yn wythnosol gan gadw munudau manwl o`r trafodaethau a`r penderfyniadau. Mae`r staff yn dangos ymrwymiad cryf tuag at wellhad parhaol, cynnal safonau uchel ac ansawdd ymhob agwedd o`r ddarpariaeth.

132. Mae gan athrawon ymwybyddiaeth dda iawn o faterion addysgol cyfredol. Mae`r ysgol yn rhoi sylw rhagorol i flaenoriaethau sirol a chenedlaethol ac i ddatblygiad y medrau allweddol; enillwyd y Marc Safon am yr ail dro. Mae`r ysgol wedi elwa`n sylweddol o gysylltiadau rhyngwladol drwy raglen Comenius gan ennill Dyfarniad Ysgolion Rhyngwladol. Mae`r ysgol yn gweithio tuag at achrediad "Ysgol Iach".

133. Cynrychiolir lleisiau`r disgyblion yn effeithiol gan waith y Cyngor Ysgol. Mae hwn yn fforwm agored a democrataidd lle trafodir syniadau, dymuniadau a

phryderon disgyblion yn rheolaidd gan weithredu arnynt. Mae cynrychiolwyr o`r cyngor yn cwrdd â`r Corff Llywodraethwyr ac adrodd ar eu gweithgareddau.

134. Mae`r ysgol yn hyrwyddo disgwyliadau uchel ac adlewyrchir rhain yn y targedau a`r disgwyliadau a osodir i ddisgyblion ac i oedolion. Mae targedau`r disgyblion wedi`u selio ar ddadansoddiadau agos o`u cynnydd unigol a thracio. Mae trefniadau Rheoli Perfformiad yr ysgol yn cyd-fynd â`r gofynion cenedlaethol. Maent yn cyfrannu at adnabod anghenion proffesiynol pob aelod o staff ynghŷd â gwella`r ddarpariaeth a hyrwyddo safonau uchel.

135. Mae`r llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol a chefnogol drwy gynnal cyfarfodydd is-bwyllgor ac ymweliadau addas yn rheoliadd. Maen nhw`n gweithio`n dda o dan arweiniad y pennaeth a`r dirprwy i osod cyfeiriad strategol i`r ysgol. Fodd bynnag, mae`r ysgol yn gweld yr angen i gryfhau gweithdrefnau er mwyn galluogi llywodraethwyr i fod yn "gyfeillion beirniadol" drwy fonitro ac arfarnu rheoliadd o ddarpariaeth yr ysgol.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol.

136. Mae canfyddiadau`r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr hunan arfarniad.

137. Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunan arfarnu da iawn. Mae`r Uwch Dîm Rheoli yn monitro ansawdd yr addysgu ac yn cyfrannu`n effeithiol at broses yr ysgol o hunan adolygiad.

138. Mae pob cydlynydd yn monitro safonau eu pwnc gan ddefnyddio`r dystiolaeth caiff ei chasglu yn dda er mwyn cynhyrchu adroddiadau blynyddol. Mae`r monitro yn cynnwys archwilio gwaith disgyblion, arsylwi gwersi a thrafod gyda disgyblion ac athrawon.

139. Mae pawb sy`n darparu addysg yn cael eu cynnwys yn llawn yn yr hunan arfarnu. Mae`r ysgol yn ystyried barn staff a rhieni yn ddifrifol. Mae`r ysgol yn gofyn barn rhieni gan roi holiadur iddynt, ac mae athrawon yn rhannu eu syniadau a phenderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer gwella.

140. Ar hyn o bryd nid yw`r ysgol yn cynnwys y disgyblion yn llawn yn y broses hunan arfarnu er fod cyngor yr ysgol yn cynnig awgrymiadau ar sut i wella`r ysgol. Gwneir sylwadau ar adroddiad hunan arfarnu`r ysgol gan y corff llywodraethwyr tra bod sytem o helpu llywodraethwyr i wneud arfarniad strwythuredig o`u rôl wedi`i mabwysiadu yn ddiweddar ac yn cael ei gyflwyno yn fuan.

141. Cynhyrchir adroddiad hunan arfarnu yr ysgol ar ôl trafodaethau hir gan staff a gwneir defnydd da o ystod o dystiolaeth i gefnogi`r barnau. Mae`r barnau yn

gadarn ac mae`r arolygwyr yn cyd-fynd â gradd yr ysgol mewn chwech o`r saith cwestiwn. Er bod y ddogfen yn nodi cryfderau`r ysgol yn effeithiol, nid yw`n nodi`n glir ardaloedd i`w gwella.

142. Mae aelodau unigol o`r bwrdd llywodraethol wedi cael cyfrifoldeb yn ddiweddar am gwestiwn allweddol ond mae`r trefniant hwn yn newydd iawn ac nid ydynt wedi gwneud asesiad llawn eto o`r meysydd hyn. Mae`r llywodraethwyr yn gweld copi draft o`r adroddiad hunan arfarniad ac yn ystyried a ydy`n adlewyrchiad o`r ysgol drwy eu llygaid nhw. Mae`r bwrdd llywodraethol yn dangos ymrwymiad tuag at hunan arfarnu ac yn ei weld fel modd allweddol o greu gwellhad.

143. Mae tystiolaeth yr hunan arfarnu yn cael ei defnyddio`n dda iawn i reoli newid ac i ddylanwadu ar gynllunio strategol. Mae`r ysgol yn ystyried materion a godwyd gan staff a rhieni yn ofalus gan eu cynnwys yn y CDY fel targedau ar gyfer gwella.

144. Mae`r Uwch Dîm Rheoli yn monitro cynnydd yr ysgol yn erbyn targedau yn y CDY ac mae`r pennaeth yn adrodd nôl i`r llywodraethwyr.

145. Mae`r adnoddau yn cyd-fynd â blaenoriaethau`r ysgol mewn modd rhagorol ac mae ariannu hael ar gael i lenwi bylchau ac ymestyn yr ystod o adnoddau ymhob pwnc.

146. Mae budsoddiad yr ysgol mewn adnoddau a chefnogaeth technoleg gwybodaeth yn golygu gwellhad sylweddol mewn safonau. Mae`r buddsoddiad mewn cynorthwywyr cymorth dysgu wedi cael argraff gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion sydd ag AAA a`r disgyblion sydd â`r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae`r penderfyniad i fabwysiadu`r cwrs Cymraeg “Trochi” a gyflwynwyd i ddisgyblion B5 am chwech wythnos ar ddiwedd tymor yr haf 2005, wedi`i gyfiawnhau gan wellhad sylweddol mewn cyflawniad disgyblion.

147. Mae`r ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolwg diwethaf gan gyflawni pob mater allweddol.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon yw’r arweinwyr a’r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol.

148. Mae canfyddiadau`r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunan arfarnu.

149. Mae lefel da iawn o staffio ar gyfer cwrdd ag anghenion disgyblion a chefnogi`r cwricwlwm. Mae gan athrawon gymwysterau a phrofiad addas ac maent wedi`u lleoli`n effeithiol iawn. Drwy reoli medrus o`r cyllid, mae`r pennaeth a`r llywodraethwyr yn cynnal cymhareb athro/disgybl da iawn ac yn cyflogi

cynorthwywyr cymorth dysgu sy`n gwneud cyfraniad rhagorol i ansawdd yr addysgu drwyddi draw.

150. Mae ansawdd a nifer yr adnoddau yn rhagorol. Mae cynllunio effeithiol i`r dyfodol wedi sicrhau bod symiau sylweddol o arian wedi`u buddsoddi mewn adnoddau dysgu ers yr arolwg diwethaf. Mae gan bob dosbarth fyrddau gwyn rhyngweithiol a rhif digonol o gyfrifiaduron o fewn pob dosbarth i gwrdd ag anghenion disgyblion.

151. Mae gan yr ysgol gasgliad da iawn o lyfrau ac adnoddau sy`n golygu nad yw`r disgyblion yn gorfod eu rhannu yn aml heblaw mewn gweithgareddau sydd wedi`u cynllunio ar gyfer cyd-weithio. Mae hyn yn annog y digyblion i ymestyn eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau allweddol, gan sicrhau datblygiad da o`u medrau dysgu annibynnol.

152. Mae`r ystod o adnoddau o ansawdd dda iawn mewn addysg gorfforol yn cynnwys neuadd aml bwrpas. Mae hyn wedi helpu`r ysgol i gyflawni rhagoriaeth mewn gymnasteg ar lefel cenedlaethol. Mae`r ysgol yn brysur iawn wrth geisio cymorth ariannol ar gyfer addysg gorfforol ac wedi elwa`n gyson o haelioni y gymdeithas rhieni athrawon. (CRA)

153. Mae cryn fuddsoddiad wedi`i wneud er mwyn gwella awyrgylch mewnol ac allanol yr ysgol ers yr arolwg diwethaf. Mae`r dosbarthiadau symudol yn fach o ran maint ond fe`u defnyddir yn effeithiol i greu lleoliad da ar gyfer addysgu. Gwerthfawrogir gwaith y disgyblion a chaiff ei ddathlu mewn arddangosfeydd o ansawdd dda iawn. Mae`r brif adeilad yn cael ei chynnal yn dda a gwneir defnydd effeithiol o`r lleoedd dysgu, gan gynnwys y coridorau.

154. Mae prinder parcio addas yn creu rhai problemau ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Mae hwn wedi bod yn fater o bryder i rieni a staff. Lleolir yr ysgol ar ddiwedd heol gul ac nid yw`r bysiau yn ei defnyddio bellach i gludo disgyblion. Mae amryw o opsiynau yn cael eu hystyried gan yr awdurdod leol.

155. Mae gan y pennaeth systemau effeithiol er mwyn sicrhau fod yr adnoddau sydd ar gael i`r ysgol, gan gynnwys yr ardal amgylchynnol, yn cael eu defnyddio`n llawn i gefnogi addysgu a dysgu. Nodir blaenoriaethau ar gyfer datblygu`n ymhellach gan roi ystyriaeth ofalus i gostau a manteision i`r ysgol.

156. Rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygiad proffesiynol parhaus i bob aelod o`r staff er bod llai o arian cyllid ar ei gyfer. Mae system o flaenoriaethu yn bod er mwyn sicrhau gwerth dda i`r ysgol ac unigolion. Mae`r hyfforddi yn cyfateb yn dda iawn i anghenion yr ysgol ac i ddatblygiad personol aelodau unigol o`r staff. Mae`r ysgol yn cymryd bob cyfle i gael bwsari neu grant er mwyn ymestyn y cyfleoedd hyn. Nodwedd rhagorol o fuddsoddiad yr ysgol yw`r datblygiad proffesiynol o ddau o`r cynorthwywyr cymorth dysgu drwy gyfrwng cwrs GNVQ 3.

157. Rheolir amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA) yn dda a defnyddir arbenigedd yr athrawon a chyflogir yn effeithiol iawn mewn dosbarthiadau yn

ystod y cyfnodau hyn. Mewn rhai achosion mae gan y drefn hon effaith arwyddocaol ar safonau.

158. Yn ystod y flwyddyn addysgol ddiwethaf, mae`r pennaeth wedi derbyn cyfrifoldeb am ysgol leol arall. Mae hyn wedi rhoi profiad arweiniol da i`r dirprwy ac aelodau staff eraill.

159. Mae`r gefnogaeth dda iawn gan ysgrifenyddes yr ysgol, goruchwylwyr amser cinio a staff y gegin yn sicrhau fod y drefn ddyddiol yn effeithlon. Mae ysgrifenyddes yr ysgol yn enwedig yn uchel ei pharch o fewn cymuned yr ysgol ac yn aelod gwerthfawr ohoni.

160. Mae`r bwrdd llywodraethwyr a`r pennaeth yn adolygu ac arfarnu defnydd o adnoddau yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod safonau cyflawniad y disgyblion yn cael eu cynnal a`u codi yn unol â thargedau`r ysgol.

161. Mae`r ysgol yn sicrhau gwerth dda iawn am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Saesneg

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol.

Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol.

Nodweddion da a rhagorol

162. Yn CA1, mae`r disgyblion yn siarad yn hyderus iawn ac yn eglur; maent yn gwrando`n astud ac yn ymateb yn frwdfrydig i`w hathrawon. Mae`r disgyblion hŷn yn ymateb yn estynedig i gwestiynau. Maent yn dysgu geirfa newydd, yn aml yn gysylltiedig â phwnc, ac yn eu defnyddio yn addas mewn cyd-destun.

163. Yn CA2, mae`r disgyblion yn gwrando`n ofalus mewn dosbarth cyfan ac mewn grwpïau, gan gymryd sylw o sylwadau eraill. Gofynnant gwestiynau perthnasol gan ymateb yn addas i eraill. Wrth iddynt symud drwy`r cyfnod allweddol, mae`r disgyblion yn siarad â hyder cynyddol. Mae disgyblion hŷn yn amrywio eu mynegiant a`u geirfa yn dda iawn er mwyn ennyn diddordeb y gwrandäwr.

164. Mae mwyafrif y disgyblion yn mwynhau darllen ac yn cael cefnogaeth dda â`u darllen yn y cartref. Mae ganddynt fynediad i ystod dda o lyfrau a chyfleoedd rheolaidd i ddarllen yn yr ysgol, sy`n gwella safonau.

165. Mae pob disgybl yn CA1 wedi dechrau darllen ac, erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae`r mwyafrif yn ddarllenwyr cywir gyda gallu da iawn i ddefnyddio`u gwybodaeth ffonetig i adeiladu geiriau anghyfarwydd. Yn CA1, mae`r disgyblion iau yn adnabod geiriau cyfarwydd mewn testunau syml ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o`r berthynas rhwng llythrennau a seiniau. Mae`r plant hŷn yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder; mae`r disgyblion mwyaf galluog yn darllen gyda mynegiant a dealltwriaeth dda iawn gan ddefnyddio ystod eang o strategaethau priodol i sefydlu ystyr. Maent yn mynegi eu blaenoriaethau ac mae rhai yn enwi eu hoff awduron.

166. Adeiladir ar y safonau yma yn CA2. Mae disgyblion yn darllen ystod o destunau gyda rhuglder a chywirdeb. Maent yn darllen yn annibynnol a chyda mynegiant. Mae`r disgyblion hŷn yn ymateb i hiwmor mewn testunau ac yn rhoi disgrifiad dealladwy o lyfrau maent yn eu darllen. Gallant enwi`r prif gymeriadau a deall eu cymhelliad dros eu gweithredoedd. Maent yn enwi eu hoff awduron ac adnabod themau gwrthdroadol yn eu gwaith. Yn ogystal, mae disgyblion yn enwi eu hoff lyfrau gan roi rhesymau da iawn dros eu dewis. Mae ganddynt fedrau darllen uwch sydd wedi eu datblygu`n dda ac yn medru dod o hyd i wybodaeth yn alluog iawn o destunau ffeithiol.

167. Mae ysgrifennu yn dda iawn yn CA1. Mae mwyafrif y disgyblion yn sillafu yn gywir a chanddynt ddealltwriaeth dda o egwyddorion gramadeg da ac atalnodi. Mae`r disgyblion iau yn CA1 yn copïo geiriau neu ymadroddion syml. Mae`r disgyblion mwyaf galluog yn dechrau ysgrifennu ychydig o eiriau neu

ymadroddion yn annibynnol ac mae unrhyw sillafu anghywir yn ddealladwy. Mae`r disgyblion hŷn yn ysgrifennu storïau dychmygus o hyd addas, gan ddefnyddio geirfa diddorol a bywiog. Atalnodir gwaith yn addas ac mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda iawn o gynnwys dyfynodau er mwyn helpu`r darllenwr. Trefnir a chyflwynir gwaith yn dda ac yn daclus. Mae disgyblion yn ysgrifennu am ystod eang o gynulleidfaoedd a phwrpasau gan gynnwys llythyron, gwaith ffeithiol, adroddiadau papur newydd, rhestrau a phenillion.

168. Yn CA2 mae enghreifftiau da iawn o ysgrifen mewn amrywiaeth o arddulliau ac ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol; gan gynnwys llythyrau, cofiannau, hunan gofiannau, ysgrifen berswadiol, barddonaieth ac adroddiadau papur newydd. Mae`r disgyblion hŷn yn cynhyrchu darnau aeddfed o ysgrifen o ansawdd dda iawn sydd yn estynedig ac yn ddychmygus. Mae rhai enghreifftiau ardderchog o waith ysgrifenedig gan ddisgyblion sy`n gweithio mewn parau. Ar y cyfan, trefnir ysgrifen y disgyblion yn dda, yn ddychmygol ac yn glir, ac mae rhai yn defnyddio geirfa diddorol a chynhyrfus ar brydiau i ennyn y darllenwr. Er enghraifft, “Hope is silver with a hint of gold” a “Night comes like a spider spinning a web of darkness around the sun.” Mae`r llawysgrifen yn glwm ac yn ddarllenadwy, mae`r sillafu yn gywir ar y cyfan a chyflwynir gwaith yn daclus.

169. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae`r disgyblion sydd â`r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni safonau da.

Diffygion

170. Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Mathemateg

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion da a rhagorol

171. Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn ymgymryd â thasgau mathemategol yn dda yn eu gwaith cartref. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae gan ddisgyblion allu rhagorol wrth gyfrifo yn y pen; dangosant hyder a meddwl cyflym wrth ddod o hyd i atebion i broblemau rhifyddeg pen.

172. Yn CA1, mae`r disgyblion yn adnabod rhifau sy`n dod cyn neu ar ôl rhifau penodedig. Maent yn trefnu set o rifau yn gywir.

173. Mae disgyblion yn adnabod y rhif mwyaf a lleiaf yn gywir o ystod o rifau rhwng sero a 20 a roddir iddynt. Maent yn adnabod odrif ac eilrif yn gyflym, ac yn dweud pa rifau sy`n llai neu fwy na 10.

174. Mae`r disgyblion yn datblygu medrau trin data yn dda iawn; maent yn creu graffiau bloc yn glir i gofnodi gwybodaeth.

175. Maent yn adnabod amser yn gywir, gan ddefnyddio mesuriadau o un chwarter ac un hanner awr ar glociau analog a digidol.

176. Mae`r disgyblion yn dangos cywirdeb da wrth fesur hyd.

177. Mae disgyblion yn adnabod darnau arian ac arian papur gan eu defnyddio yn gywir i wneud cyfanswm. Maent yn dod o hyd i gost nifer o eitemau, gan ddefnyddio medrau lluosi yn effeithiol.

178. Mae`r disgyblion yn gwahaniaethu rhwng siapiau 2D cyffredin ac anghyffredin yn gywir gan ddefnyddio terminoleg addas i ddigrifio eu priodweddau. Maent yn defnyddio sgwarau i greu siapiau aml ochrog 2D newydd a`u henwi yn gywir.

179. Maent yn adnabod onglau sgwâr yn gywir o fewn y dosbarth ac mewn eitemau o gwmpas yr ysgol.

180. Mae disgyblion yn defnyddio geirfa mathemategol yn gywir i ddisgrifio safleoedd eitemau mewn perthynas â`u gilydd.

181. Yn CA2, mae`r disgyblion yn datblygu`n ymhellach eu gwybodaeth dda iawn o siâp, gofod a mesur ac yn esbonio priodweddau siapiau 2D a 3D amrywiol yn glir gan ddefnyddio terminoleg mathemategol addas. Maent yn tynnu lluniau`r siapiau yn gywir.

182. Mae`r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o werth lle gan ddefnyddio pwynt degol yn gywir i nodi gwerthoedd rhifau.

183. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o weithrediadau rhif ac yn defnyddio eu gwybodaeth fathemategolyn dda iawn i ddatrys problemau bob dydd. Mae disgyblion yn cyfrif cost nifer o eitemau a chyfrif yn gywir faint o newid sydd o swm penodol o arian.

184. Maent yn datblygu eu medrau trin data ymhellach drwy osod data ar gyfrifiadur a chreu ystod o graffiau. Maent yn darllen a dehongli amrywiaeth o graffiau yn gyflym ac yn gywir.

185. Mae disgyblion yn mesur yn gywir ac yn cofnodi eu darganfyddiadau mewn unedau mor fach â milimedrau.

186. Maent yn adnabod gwahanol fathau o onglau yn gywir a defnyddio terminoleg addas i`w disgrifio.

187. Mae disgyblion yn adnabod safleodd ar fap yn gywir a dweud beth yw`r cyfeirnodau.

188. Mae disgyblion yn medru esbonio eu methodoleg yn glir, gan wneud defnydd da iawn o iaith fathemategol.

189. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae`r disgyblion sydd â`r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni safonau da.

Diffygion

190. Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Technoleg gwybodaeth

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol.

Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol.

Nodweddion da a rhagorol

191. Gall y disgyblion i gyd ddatblygu terminoleg yn gysylltiedig â thechnoleg gwybodaeth mewn modd addas a defnyddio`r termau yn hyderus ac effeithiol wrth drafod a disgrifio eu gwaith.

192. Gall y disgyblion i gyd ddangos gwybodaeth dda iawn o`r cyfrifiadur a gweithio yn annibynnol gan ddefnyddio`r offer amrywiol sydd ar y fwydlen.

193. Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn medru agor ffeil e-bost yn hyderus a defnyddio`r cyfarwyddiadau ar y sgrîn i`w agor.

194. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda iawn o sut i ddefnyddio`r bwrdd gwyn rhyngweithiol gan wneud hyn yn gymwys.

195. Mae`r disgyblion sydd ag AAA yn defnyddio`r cyfrifiadur yn effeithiol i gefnogi eu gwaith a hefyd yn defnyddio camera digidol yn effeithiol i dynnu lluniau o bethau penodol o gwmpas yr ysgol.

196. Yn CA1, mae disgyblion yn defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol i ddatblygu medrau dysgu annibynnol ac yn defnyddio prosesydd geiriau yn effeithiol.

197. Mae`r disgyblion yn dangos medrau modelu da drwy symud eitemau o gwmpas ar sgrîn.

198. Maent yn llwytho, cadw a phrintio gwaith eu hun yn hyderus iawn, newid y ffont a newid lliw a maint print yn ôl yr angen. Maent yn defnyddio`r medrau hyn yn dda iawn i greu cylchlythyr drwy drefnu`r testun, dewis ffont addas a mewnforio delweddau i`w gwaith.

199. Mae`r disgyblion yn gwella neu newid rhannau o ddelwedd yn gymwys, a newid golwg a thrwch llinellau drwy ddefnyddio`r offer iawn ar raglen gelf gyfrifiadurol.

200. Yn CA2, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gwersi â chyswllt fideo â dosbarth arall yn fywiog ac hyderus iawn; dengys y disgyblion reolaeth ardderchog o`r camera a thrafod pynciau gyda disgyblion mewn dosbarth cyfochrog.

201. Mae disgyblion yn defnyddio`r rhyngrwyd yn hyderus i ymchwilio ac astudio gwybodaeth i gefnogi eu gwaith a`u tasgau gosod. Maent yn dewis a defnyddio peiriant chwilio yn effeithiol iawn i ddod o hyd i wybodaeth sy`n gysylltiedig â`u thema.

202. Mae disgyblion yn rheoli a defnyddio offer fideo yn dda i recordio symudiad mewn gwersi Addysg Gorfforol. Maent yn defnyddio`r delweddau yn effeithiol iawn i arfarnu eu perfformiad.

203. Mae disgyblion yn defnyddio taenlenni yn gywir a chymwys iawn i gofnodi data a chasglwyd o waith ymchwil.

204. Defnyddiant gamera digidol yn gelfydd iawn i gynhyrchu lluniau o ansawdd uchel.

205. Mae disgyblion yn creu gwefan sy`n rhoi gwybodaeth ar y gofod a`r planedau sy`n cael eu defnyddio gan ddisgyblion eraill er mwyn iddynt ddatblygu`n ymhellach eu medrau ymchwilio. Mae ansawdd y gwaith yn rhagorol.

206. Defnyddir e-bost gan ddisgyblion i gyfathrebu yn effeithiol ac i gyfnewid gwybodaeth ag ysgolion partneriaeth mewn gwledydd amrywiol yn Ewrop a chyda disgyblion mewn ysgolion lleol eraill.

207. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae`r disgyblion sydd â`r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni safonau da.

Diffygion

208. Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Hanes

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol.
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol.

Nodweddion da a rhagorol

209. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae ymwybyddiaeth gronolegol y disgyblion a`u gallu i gynnal ymchwiliadau hanesyddol yn rhagorol.

210. Mae disgyblion yn arddangos medrau ymchwilio rhagorol, a gwybodaeth a dealltwriaeth hanesyddol dda iawn mewn gwaith ar ymweliadau i safleoedd hanesyddol arwyddocaol.

211. Mae`r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn dangos ymwybyddiaeth dda iwan o weithgareddau hanesyddol yng Nghymru.

212. Yn CA1, mae defnydd disgyblion o ymadroddion a therminoleg sy`n gysylltiedig â threigl amser yn datblygu`n dda. Maent yn cymharu hen deganau a theganau

newydd, cartrefi a bwyd gyda rhai`r presennol yn gelfydd gan leoli`r arteffactau hyn ar linell amser syml.

213. Yn dilyn cyflwyniad gan ymwelydd i`r ysgol, mae`r disgyblion yn rhestri`r prif wahaniaethau rhwng ffyrdd o deithio yn y gorffennol a rhai`r presennol. Mae eu hymwybyddiaeth o gysyniad amser yn cael eu datblygu`n ymhellach drwy gynigion da i ragweld trafnidiaith y dyfodol.

214. Drwy astudio pensarnïaeth Aberystwyth mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o nodweddion hen adeiladau ac adeiladau newydd y dref ac o`r gwahaniaethau mewn ffordd o fyw yn y gorffennol a`r presennol.

215. Yn CA2, mae disgyblion yn gwneud defnydd gwybodus o linellau amser. Maent yn gofyn ac ymateb i gwestiynau hanesyddol mewn modd pwrpasol a manwl a gwneud cymhariaethau deallus rhwng dilusrwydd gwahanol ffynonellau hanesyddol. Tua diwedd cyfnod CA2, mae disgyblion yn dechrau sylweddoli arwyddocâd ffynonellau cynradd ac uchradd, fel cymharu a chyferbynnu amodau byw glöwr gydag amodau byw perchennog y pwll glo.

216. Mae dealltwriaeth dda gan y disgyblion o bresenoldeb y Celtiaid yn y wlad hon yn y gorffennol ac yn ymwybodol o`u gwreiddiau a phrif nodweddion eu bywyd dyddiol. Yn dilyn profiadau fel ymweld â Chastell Henllys, mae`r disgyblion yn medru cymharu a chyferbynu bywyd yn y gorffennol â`u bywyd heddiw yn effeithiol iawn.

217. Ar ddiwedd CA2, mae disgyblion yn dangos ddealltwriaeth dda iawn o hanes yr ardal yn oes Fictoria ac o`r newidiadau i Aberystwyth wrth iddi ddod yn dref lan môr boblogaidd gyda dyfodiad y rheilffyrdd.

218. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae`r disgyblion sydd â`r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni safonau da.

Diffygion

219. Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Celf

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol.

Nodweddion da a rhagorol

220. Mae ystod a dyfnder da iawn i waith disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol. Maent yn datblygu medrau da drwy ddefnyddio llyfrau braslunio i archwilio llinell, tôn, lliw a phatrwm a throsglwyddo`r medrau yma i`w gwaith celf yn effeithiol iawn.

221. Yn CA1, mae`r disgyblion yn datblygu eu medrau archwilio yn dda tra`n arsylwi nodweddion naturiol wrth gerdded yn yr ardd gan eu cofnodi yn eu llyfrau braslunio.

222. Maent yn adnabod gwaith William Morris yn dda, yn adnabod ei arddull a defnyddio dail a phetalau i greu cynlluniau deniadol eu hun.

223. Mae disgyblion yn astudio gwaith Kandinsky gan efelychu ei arddull yn effeithiol mewn ystod eang o gyfryngau. Er enghraifft, maent yn peintio cynlluniau crwn gydag amryw o baent ar ganfas a phapur a mosaic serameg. Mae maint rhai ohonynt a`u hargraff weledol yn drawiadol iawn.

224. Mae disgyblion yn peintio lluniau da o Irisau ac mae rhai yn efelychu arddull Van Gogh drwy beintio Irisau mewn llestri sy`n debyg i`r “Sunflowers”.

225. Mae disgyblion iau yn archwilio lliw a gwead wrth wneud hunan-bortreadau effeithiol mewn amrywiaeth o ddefnyddiau. Mae`r rhain yn cael eu gwnïo at eu gilydd i greu gwaith i`r wal sy`n addurno grisiau y babanod yn dda.

226. Mae disgyblion iau CA2 yn cymysgu paent yn feddylgar ac yn cynhyrchu cynlluniau haniaethol. Maent yn datblygu eu medrau o ddefnyddio llinell a thôn ymhellach wrth wneud braslun o wrthrychau â phatrymau Celtaidd. Maent yn arbrofi yn effeithiol gyda phensil a siarcol, gan smwtsio`r llinellau i roi dyfnder i`w darluniau. Maent yn deall yn dda y ffordd mae Jackson Pollock yn defnyddio llinell a lliw gan adnabod nodweddion tebyg mewn delweddau ar y cyfrifiadur.

227. Maent yn creu delweddau byw da iawn mewn arddull Matisse gan drefnu eu cyrff mewn troellau a phetryalau ar y llawr.

228. Tua canol y cyfnod allweddol, mae disgyblion yn archwilio celf o ddiwylliannau eraill yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gelf yr Aborigine a gwybod eu bod wedi peintio gwrthrychau drwy edrych lawr arnynt a bod y lliwiau a ddefnyddwyd yn debyg iawn i rai y tir. Maent yn tynnu lluniau o siapiau anifeiliaid, a chyda prennau a bydiau cotwm, yn gosod paent yn ofalus yn arddull y brodorion o Awstralia.

229. Maent yn defnyddio pasteli olew yn effeithiol iawn i gofnodi ffenestri lliw yr eglwys leol a defnyddio rhaglen TGCh yn gymwys i gynhyrchu cynlluniau ffenestri eu hun.

230. Tua diwedd y cyfnod allweddol, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau i dynnu llun ffigyrau, gan gyfleu symudiad yn effeithiol, er enghraifft, dyn yn gwthio berfa. Mae`r rhain wedi` eu tywyllu yn ofalus. Maent yn darlunio hunan-bortreadau a phroffiliau wynebau mewn pensil, rhai o ansawdd ardderchog, gan ddangos medrau arsylwi da iawn. Maent yn archwilio technegau printio gan ddefnyddio gwrthrychau naturiol ac o waith llaw dyn.

231. Ar ddiwedd y cyfnod allweddol, wedi`u hysbrydoli gan waith Andy Goldsworthy, mae disgyblion yn adeiladu cydosodiadau ar y traeth gan ddefnyddio

defnyddiau naturiol; cerrig, cerrig crynion a broc môr. Maent yn tynnu lluniau ohonynt â chamera a`u harddangos yn chwaethus yn nghoridorau`r ysgol.

232. Mae disgyblion yn gwneud lluniau sylwadol gan ddefnyddio pensil a siarcol a ffigyrau sy`n plygu, fel sydd mewn darlun gan Will Roberts, gan fynegi`r symudiad yn dda iawn. Maent hefyd yn astudio gwaith Kyffin Williams ac yn efelychu ei arddull.

233. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio gwahanol fathau o wnïo wrth weithio â thecstiliau ac yn defnyddio peniau a phaent ar gyfer defnydd yn effeithiol.

234. Mae disgyblion yn defnyddio camerau digidol yn greadigol i ddal delweddau du a gwyn a lliw. Mae canlyniadau prosiect ar thema "Symud" yn rhagorol o ran delweddau ac ansawdd y lluniau. Mae`r ystod eang o enghreifftiau yn sefydlu archwiliad creadigol o`r thema.

235. Mae`r disgyblion sydd â`r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni safonau da.

Diffygion

236. Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Cerddoriaeth

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol.

Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol.

Nodweddion da a rhagorol

237. Mae disgyblion ar draws y ddau gyfnod allweddol yn cael tipyn o fwynhad wrth ganu amrywiaeth eang o ganeuon gan ganu yn aml mewn harmoni deulais neu tri llais, neu gerdd dant. Mae eu hymwybyddiaeth o draw cywir a`u gallu i reoli anadlu a dynameg wrth berfformio repertoire sydd yn gynyddol gymhleth yn nodwedd rhagorol.

238. Yn CA1, mae`r disgyblion yn dethol a threfnu cerddoriaeth mewn ymateb i wahanol symbyliadau yn effeithiol ac yn medru chwarae cyfeiliannau syml i hwiangerddi gan ddefnyddio offerynnau heb eu tiwnio.

239. Mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o rhythm ac yn archwilio amrediad o batrymau rhythmig yn effeithiol, ac yn cyfansoddi trefniant rhythmig.

240. Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda iawn o nodiant gwahanol sy`n cael eu datblygu drwy gyfansoddi trefniannau graffig syml ac effeithiol i gyd-fynd â`r pennill "Wheels on the Bus".

241. Mae disgyblion yn diffinio a chynnal rhythm ostinato yn dda ac yn dewis offerynnau addas i gynrychiolu synau a symudiad anifeiliaid gan ddefnyddio offerynnau wedi`u tiwnio a heb eu tiwnio.

242. Maent yn dangos wybodaeth dda a chynyddol o elfennau cerddorol fel traw a dynameg gan adnabod synau uchel ac isel ac wrth chwarae offerynnau yn uchel neu`n dawel.

243. Yn CA2, mae gan bob disgybl ymwybyddiaeth dda iawn o gerddoriaeth o draddodiadau eraill drwy nifer o weithgareddau fel Drymio o Affrica, Drymiau Brasil a gweithdai Offerynnau Taro.

244. Mae disgyblion yn datblygu eu hymwybyddiaeth o batrymau rhythmig ymhellach drwy berfformio gridiau rhythm yn gywir, weithiau yn cyfuno dau batrwm grid yn effeithiol. Maent yn dynwared patrymau cerddorol yn effeithiol mewn gemau canu, gan eu dysgu ar gof a`u dwyn i gof yn ogystal.

245. Mae eu gallu i gyfansoddi a chofnodi eu cyfansoddiadau mewn ffurf drefniant graffig a nodiant staff yn cael eu datblygu`n dda wrth ymateb i symbyliadau fel “The Snow Spider” neu “Jack in the Box”. Mae disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol a rheolaeth o offerynnau taro wedi`u tiwnio a heb eu tiwnio. Maent yn gwerthuso eu perfformiad a pherfformiadau disgyblion eraill yn graff gan awgrymu ffyrdd o wella eu gwaith.

246. Mae disgyblion yn gwrando ac yn gwerthuso amrediad eang o gerddoriaeth, gan gynnwys cyfansoddwyr o Gymru fel John Metcalf a Karl Jenkins. Maent yn astudio salm donau Gregoraidd, “Spring” gan Vivaldi a “Carnival of the Animals” gan Sant Saens. Maent yn adnabod prif nodweddion y darnau hyn yn dda ac yn nodi yr elfennau cerddorol a`r offerynnau yn gywir.

247. Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth o bwrpas rhaglenni TGCh fel “Music Explorer” ac yn eu defnyddio yn effeithiol i ddatblygu eu galluoedd cyfansoddi a`u dealltwriaeth o elfennau cerddorol.

248. Mae pob disgybl yn CA2 yn gwneud cynnydd da yn eu gwersi recorder ac mewn hyfforddiant offerynnol arall. Mae hyn, yn ogystal â pherfformiadau lleisiol ac offerynnol y côr a`r gerddorfa, yn cyfrannu`n helaeth at safonau rhagorol yn y pwnc.

249. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae`r disgyblion sydd â`r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni safonau da.

Diffygion

250. Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae`r staff a`r llywodraethwyr yn derbyn yr adroddiad fel adlewyrchiad cywir o`r safonau cyfredol ac ansawdd y ddarpariaeth yn Ysgol Plascrug. Hoffwn ddiolch i`r Tîm Arolygu am eu cwrteisi a`u ffordd broffesiynol yn ystod y broses. Byddwn yn gweithio ar yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiaid mor gynted â sy`n bosib er mwyn parhau â`n hymdrechion i gyflawni rhagoriaeth.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Plascrug C.P. School
Math o ysgol	Meithrin a Chynradd
Ystod oedran y disgyblion	3-11
Cyfeiriad yr ysgol	Plascrug Avenue, Aberystwyth, Ceredigion
Cod post	SY23 1HL
Rhif ffôn	01970612286

Pennaeth	Mr Eifion Evans
Dyddiad penodi	Ebrill 2001
Cadeirydd y llywodraethwyr / Awdurdod priodol	Dr John Gratton
Arolygydd cofrestredig	Mr Robert Jones
Dyddiadau'r arolygiad	22-25 Mai 2006

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfan-swm
Nifer y disgyblion	27	42	44	41	54	52	56	46	362

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyfwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	20	1	20.5

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	17.6:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	8.5:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	N/a
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	23.9
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.3:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Haf 2005	87.2	91.3	92.3
Hydref 2005	80.9	89.1	93.3
Gwanwyn 2006	84.7	90.2	92.4

Canran y disgyblion gyda'r hawl i brydau ysgol am ddim	21%
Nifer y disgyblion wedi'u gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

Atodiad 3

Canlyniadau Asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd Cyfnod Allweddol 1:

Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2005			Nifer y disgyblion yn B2			52	
Canran y disgyblion ar bob lefel							
			D	W	1	2	3
Saesneg:	Asesiad Athro	Ysgol	0	2	4	73	21
		Cened-laethol	0	4	13	63	20
Saesneg: darllen	Asesiad Athro	Ysgol	0	2	4	73	21
		Cened-laethol	0	3	11	63	23
Saesneg: ysgrifennu	Asesiad Athro	Ysgol	0	2	4	71	23
		Cened-laethol	0	6	14	69	11
Saesneg: siarad a gwrando	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	4	77	19
		Cened-laethol	0	4	14	55	27
Mathemateg	Asesiad Athro	Ysgol	0	2	11	63	24
		Cened-laethol	0	2	11	63	24
Gwyddoniaeth	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	2	90	8
		Cened-laethol	0	2	10	65	23

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl asesiad athro			
Yn yr ysgol	92	Yng Nghymru	80

D Disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o'r trefniadau statudol
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Canlyniadau Asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd Cyfnod Allweddol 2:

Canlyniadau Asesiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 20__			Nifer y disgyblion yn B6							58	
Canran y disgyblion ar bob lefel											
			D	A	F	W	1	2	3	4	5
Saesneg	Asesiad Athro	Ysgol	6	0	0	0	0	0	9	51	34
		Cened-laethol	1	0	0	1	1	5	16	46	30
Mathemateg	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	9	55	36
		Cened-laethol	0	0	0	0	1	3	17	47	32
Gwyddon-iaeth	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	0	65	35
		Cened-laethol	0	0	0	0	0	2	11	50	37

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf)			
yn ôl Asesiad Athro		yn ôl Prawf	
Yn yr ysgol	85%	Yn yr ysgol	-
Yng Nghymru	72%	Yng Nghymru	-

D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Arolygwyd yr ysgol gan dîm o bedwar arolygydd a oedd yn bresennol am gyfanswm o un deg pedwar diwrnod. Yn ystod y cyfnod:

- cynhaliwyd cyfarfodydd cyn-arolygiad gyda`r pennaeth, athrawon, rhieni a`r bwrdd llywodraethwyr er mwyn trafod bywyd a gwaith yr ysgol;
- dadansoddwyd 58 o holiaduron rhieni yn drwyadl;
- archwiliwyd polisïau a dogfennaeth yr ysgol cyn yr arolwg;
- cynhaliwyd trafodaethau â`r pennaeth a chyd-lynwyr y cwricwlwm;
- mynychwyd 47 o wersi, neu rannau ohonynt;
- gwrandawyd ar ddisgyblion yn darllen a chynhaliwyd trafodaethau â nhw am eu gwaith fel rhan o archwiliad o safonau mewn pynciau`r Cwricwlwm Cenedlaethol;
- arolygwyd samplau o waith y disgyblion ymhob dosbarth;
- astudiwyd cofrestri presenoldeb, cofnodion y disgyblion a ffeiliau cynllunio yr athrawon;
- roedd arolygwyr yn bresennol yn y sesiynau addoli ar y cyd i`r ysgol gyfan;
- cynhaliwyd cyfarfodydd ar ôl yr arolygiad gyda`r staff a`r bwrdd llywodraethol

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Mr Robert Jones Arolygydd cofrestredig	Cyd-destun Crynodeb, Argymhellion Cwestiwn Allweddol 1 a 6 Saesneg Celf
Mrs. Eleri Honour Arolygydd Tim	Cwestiwn Allweddol 4 a 5 Hanes Cerddoriaeth
Mr Glyn Griffiths Arolygydd Tim	Cwestiwn Allweddol 2 a 3 Mathemateg Technoleg Gwybodaeth
Mr Dylan Jones Arolygydd Lleyg	Cwestiwn Allweddol 7 a chyfrannu at Gwestiwn Allweddol 1,3 a 4
Ms Rhian Rowe	Enwebai